Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol**

# Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru: 2026-27

Rhagfyr 2025

## Cyflwyniad

**1.** Mae’r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau’r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. Bwriad ein hadroddiad yw llywio’r drafodaeth ddydd Mawrth 16 Rhagfyr 2025.

**2.** Mae ein gwaith craffu wedi ei lywio gan y canlynol:

- tystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol (“y Gweinidog”); Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (“Ysgrifennydd y Cabinet”), a’r Prif Weinidog;
- sesiynau tystiolaeth lafar gyda'r Gweinidog ar 19 Tachwedd 2025 a chydag Ysgrifennydd y Cabinet ar 27 Tachwedd 2025;
- tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a ddarparwyd gan gyrff a ariennir gan Lywodraeth Cymru yn ystod gwaith craffu cyffredinol yn yr hydref 2025; a
- safbwyntiau rhanddeiliaid eraill ac aelodau o'r cyhoedd a gyflwynwyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor hwn.

**3.** Mae ein hadroddiad wedi'i strwythuro yn unol â’r tri phortffolio gweinidogol a’r modd maent yn cyd-fynd â'n cylch gwaith:

- Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon (Y Gweinidog);
- Y Gymraeg (Ysgrifennydd y Cabinet);
- Cysylltiadau Rhyngwladol (Y Prif Weinidog).

## Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn y Gyllideb Derfynol........14

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ffigurau i'r Pwyllgor ar gyfanswm y gwariant refeniw a chyfalaf ar ddiwylliant a chwaraeon gan adrannau nad ydynt yn ymwneud â diwylliant a chwaraeon. Dylai hyn gynnwys, ar gyfer pob blwyddyn ers 2024-25, ddadansoddiad o'r cyllid yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ac esboniad o sut cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio ar gyfer diwylliant neu chwaraeon........14

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gysoni cyllidebau â gwariant ataliol, fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilio Cymru a'r Pwyllgor hwn. Man cychwyn fyddai cynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon........19

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall leihau'r baich gweinyddol, ac yn lle hynny darparu mwy o gyllid fel cyfraniadau ychwanegol at eu cymorth grant........26

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:........27

- sefydlu ffrwd gyllido hirdymor gynaliadwy ar gyfer prosiect Celf........27
- darparu'r rhesymeg dros safbwynt y Gweinidog y dylai prosiect Celf fod yn hunangynhaliol, o gofio bod hynny fel petai'n mynd yn groes i ddau asesiad annibynnol o'r prosiect........28

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru er mwyn iddo gael o leiaf y cynnydd cyfartalog mewn cyllidebau refeniw a ddefnyddir ar draws cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru. ........29

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen glir i wneud penderfyniad terfynol am y berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru. ....31

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion pellach ynghylch y "dyraniad o £1.97m i Medr i gefnogi darpariaeth conservatoire cerdd a drama yn seiliedig ar berfformiad". Dylai'r manylion hyn gynnwys o ba ran o gyllideb Llywodraeth Cymru y daw'r cyllid hwn, pa ganlyniadau y bydd y cyllid yn eu darparu, ac a yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynnal y cyllid hwn yn barhaus. ....33

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion ei dyraniadau ar gyfer newyddiaduraeth ac i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2026-27. Wrth wneud hynny, dylai egluro sut mae wedi ystyried cyflog ac amodau gwaith priodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sectorau hyn....33

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i argymhellion adroddiad 2023 O Gymru ac i Gymru: Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd, gan egluro sut y bydd unrhyw waith i weithredu ar yr adroddiad hwn yn cael ei ariannu....33

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a fydd cyhoeddiad Rhagfyr 2025 ynghylch £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y diwydiannau creadigol yn cael unrhyw effaith ar ddyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27....33

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol .... 39

- darparu dadansoddiad llawn o ddosbarthiad y cyllid i sefydliadau partner o dan y ffrwd gyllido hon, gan gynnwys faint fydd yn cael ei ddyrannu i'r Athrofa;. 39

- egluro a yw'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i gefnogi gwaith paratoi'r Athrofa yn cynnwys cyllid i gefnogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda'i chostau chwyddiannol a'i chyfrifoldebau ychwanegol ei hun; .... 39

- darparu manylion unrhyw drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda sefydliadau partner ynghylch effaith cynnydd is na chwyddiant ar eu gweithrediad a'u gweithgareddau. .... 39

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r cynnydd sylfaenol o 2 y cant i bob sefydliad partner, a rhoi adnoddau llawn i'r meysydd hynny sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf gyda refeniw ychwanegol. .... 39

**Argymhelliad 14.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cynnydd termau real mewn cyllid ynghyd â'r cynnydd sy'n gymesur â'r gweithgareddau ychwanegol y gofynnir i'r Comisiynydd eu cyflawni. 42

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o unrhyw gytundeb cyllideb, geisio darparu'r £83,000 ychwanegol y gofynnwyd amdano i'r Comisiynydd fel rhan o'i hamcangyfrif i wneud gwaith yn datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. 42

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol: 47

▪ darparu cynnydd chwyddiannol i Mudiad Meithrin ar yr un lefel â phartneriaid eraill sy'n gweithio i gefnogi a hyrwyddo'r iaith; 47

▪ nodi faint o gyllid y bydd Mudiad Meithrin yn ei gael fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, a ble mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddyrannu. 47

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl sut mae ARFOR wedi cael ei brif ffrydio i'r gyllideb gyffredinol. 47

**Argymhelliad 18.** Yn unol â'n hargymhellion blaenorol a'r egwyddor o atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r Senedd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, lle bo'r pwyllgor perthnasol yn gofyn, bod y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn ymddangos yn bersonol ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol. 49

**Argymhelliad 19.** Mewn ymateb i'r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol: 50

▪ Darparu gwybodaeth am ganlyniadau ac elfennau i'w cyflawni sy'n ymwneud â Chysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2024-25 a 2025-26. 50

▪ Darparu gwybodaeth am alldro, canlyniadau ac elfennau i'w cyflawni sy'n ymwneud â Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol ar gyfer 2024-25 a 2025-26. 50

▪ Esbonio sut mae dyraniad y gyllideb ar gyfer 2025-26 wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol hyd yma yng nghylch presennol y gyllideb, a beth sydd ar ôl i'w gyflawni yn ystod y Chweched Senedd. 50

▪ Darparu rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad arfaethedig o'r Rhwydwaith Tramor, gan gynnwys y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad, y broses adolygu, ei hyd a'i led, ei amseriad a'i adnoddau. 51

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol: ..... 56

▪ Esbonio'r rhesymeg am y toriadau termau real yn y BEL rhyngwladol gan ystyried y cynnydd cyffredinol o 2.2 y cant mewn refeniw. ..... 56

▪ Rhoi manylion pa drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Gweinidogion/Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol a arweiniodd at doriadau termau real yn y BEL. ..... 56

▪ Rhoi dyraniadau ar gyfer y gwariant arfaethedig wedi'i broffilio ar gyfer y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol ac egluro pam na chafodd y rhain eu rhannu â'r Pwyllgor yng ngwybodaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog. ..... 56

▪ Egluro pam fod Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo £3,000 o gronfeydd, a pham nad oedd sôn am hyn yng ngwybodaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog. ..... 57

▪ Rhoi gwybod lle bydd y £3,000 a drosglwyddwyd o gronfeydd yn cael ei ddyrannu yn nhri maes y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol (Ymgysylltu Rhyngwladol, Swyddfa Dramor: costau rhedeg, Swyddfeydd Tramor: gweithgarwch cyfunol). ..... 57

▪ Sicrhau bod y Strategaeth Ryngwladol, y pedwar cynllun gweithredu a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn destun proses werthuso allanol (yn yr un modd â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio). ..... 57

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol: ..... 57

▪ Rhoi gwybod pwy fydd partneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27. ..... 57

▪ Rhoi gwybod pryd bydd cyllid yn cael ei gadarnhau i bob partneriaid cyflawni, a faint sydd wedi cyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni. ..... 58

▪ Egluro pa gamau a gymerwyd i gael gwybodaeth ariannol allweddol gan bartneriaid wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft. ..... 58

▪ Egluro cynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru os bydd partneriaid strategol yn rhoi gwybod bod y toriadau termau real a ddisgrifir uchod yn annigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau. ..... 58

# 1. Dull gweithredu cyffredinol Llywodraeth Cymru

**4.** Cafodd Cyllideb Ddrafft 2026-27 – yr olaf gan Lywodraeth bresennol Cymru – ei chyflwyno gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Mark Drakeford AS, fel cyllideb "busnes fel arfer."[1]

**5.** Mae adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27 yn nodi mai'r dull a ddefnyddiwyd i ddyrannu cyllid i adrannau oedd cymryd y llinell sylfaen ddiwygiedig ac ychwanegu:

- cynnydd o 2.2 y cant yn yr adnoddau cyllidol a ddarperir ar gyfer elfennau tâl sector cyhoeddus ym mhob adran.
- cynnydd o 2 y cant ar gyfer adnoddau cyllidol nad ydynt yn ymwneud â thâl, cyfalaf cyffredinol a chyfalaf trafodiadau ariannol.[2]

Mae'r newid refeniw cyffredinol (h.y. "adnodd cyllidol" – refeniw heb gynnwys refeniw nad yw'n arian parod) i'r meysydd sy'n cael eu hystyried gan y pwyllgor hwn yn gynnydd o 2 y cant.

Mae dogfennau'r gyllideb yn nodi bod £380 miliwn o gyllid heb ei ddyrannu, sy'n cynnwys £231 miliwn o adnoddau cyllidol, £136 miliwn o gyfalaf cyffredinol a £13 miliwn o gyfalaf trafodiadau ariannol.[3]

Yn ei gyflwyniad i Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet: *"Rwy'n dal yn agored, felly, i weithio gyda phleidiau gwleidyddol eraill" i gael cyllideb derfynol drwy'r Senedd.*[4]

[1] Cofnod y trafodion: Y Cyfarfod Llawn - 1 Gorffennaf 2025, paragraff 207
[2] Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27 - Hydref 2025
[3] Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27 – Hydref 2025, tudalen 23
[4] Llywodraeth Cymru: Adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2026-27 - Hydref 2025, tudalen 3

# 2. Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon

## Trosolwg

**6.** Yn gyffredinol, mae'r cyllid refeniw a chyfalaf ar gyfer elfennau Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon ein cylch gwaith wedi cynyddu o £211.8 miliwn yn llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27 i £216.0 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (cynnydd o 2 y cant). Mae'r cyllid a ddyrannwyd yn cynnwys:

- **Cyllid refeniw:** £148.1 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 1.9 y cant o gymharu â'r £145.4 miliwn yn llinell sylfaen ddiwygiedig 2026/27;
- **Cyllid cyfalaf:** £67.9 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 2.2 y cant o gymharu â'r £66.4 miliwn yn llinell sylfaen ddiwygiedig 2026/27.

**7.** Mae'r dyraniadau hyn yn cynnwys y Camau Gweithredu canlynol:

- **Diwylliant a'r Celfyddydau:** gan gynnwys cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol, a chymorth ar gyfer diwylliant lleol a chwaraeon;
- **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol:** darparu cyllid ar gyfer Chwaraeon Cymru;
- **Yr Amgylchedd Hanesyddol:** caiff ei ariannu'n bennaf drwy Cadw (is-adran treftadaeth Llywodraeth Cymru), ond sydd hefyd yn cynnwys yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru;
- **Cymru Greadigol:** is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru.

**8.** Mae Tabl 1 yn cymharu'r dyraniadau refeniw a chyfalaf ar gyfer y Camau Gweithredu hyn yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 â'r dyraniadau yn llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27.

***Tabl 1 Crynodeb o ddyraniadau ar gyfer y Camau Gweithredu perthnasol***

| Cam Gweithredu | Math o gyllid | Llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27 (£miliwn) | Cyllideb Ddrafft 2026-27 (£miliwn) | Cynnydd mewn termau arian parod |
|---|---|---|---|---|
| **Diwylliant a'r Celfyddydau** | Refeniw | £89.2 | £90.1 | 1% |
| | Cyfalaf | £40.2 | £41.5 | 3.1% |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol** | Refeniw | £23.19 | £23.24 | 0.2% |
| | Cyfalaf | £10 | £9.5 | -5%[5] |
| **Yr Amgylchedd Hanesyddol** | Refeniw | £25.2 | £25.5 | 1.6% |
| | Cyfalaf | £9.2 | £9.5 | 2.5% |
| **Cymru Greadigol** | Refeniw | £7 | £8.4 | 20% |
| | Cyfalaf | £7 | £7.5 | 7% |

## Uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer diwylliant a chwaraeon

**9.** Cyn ein cyfarfod â'r Gweinidog, fe wnaethom gynnal sesiynau tystiolaeth gyda'r prif sefydliadau diwylliant a chwaraeon a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn gyfle i ddysgu am gyflwr y sector, ac effaith bosibl yr hyn a gafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru fel Cyllideb Ddrafft “busnes fel arfer”.[6]

**10.** Y dystiolaeth a glywsom oedd bod diwylliant a chwaraeon yn ei chael hi’n anodd yn dilyn degawd o doriadau termau real, yn ystod cyfnod pan maent wedi dod drwy siociau allanol fel y pandemig, Brexit a'r argyfwng costau byw.

**11.** Yn adroddiad 2025, dywedodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol fod “diwylliant mewn argyfwng” ac “nid oes llawer o dystiolaeth bod llesiant diwylliannol yn cael ei gefnogi’n gyfannol ar draws meysydd polisi.”[7]

**12.** Ym mis Hydref, amlinellodd Cyngor Celfyddydau Cymru fregusrwydd parhaus y sector, gyda chynnydd i'w weld yn y sefydliadau sydd fwyaf mewn perygl, a nododd nad oes “slac“ yn y system.[8]

**13.** Nodwyd y canlynol ym mhapur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sesiwn y Gyllideb Ddrafft:

> *“Nid yw cynulleidfaoedd wedi dychwelyd i lefelau cyn y pandemig. Ar draws sefydliadau a ariennir gan CCC dros sawl blwyddyn, mae'r ffigurau yn dangos y bu 3.5m o bobl yn*

[5] Daw'r gostyngiad hwn o ganlyniad i gostau o £1m y cynllun benthyciadau cyfalaf – mae cyllideb gyfalaf Chwaraeon Cymru yn cynyddu £0.5 miliwn.
[6] Cofnod y trafodion: Y Cyfarfod Llawn - 1 Gorffennaf 2025, paragraff 207
[7] Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru: Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, tudalennau 6 a 114
[8] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Hydref 2025, paragraff 233

> *bresennol mewn digwyddiadau yn 2024-25 o gymharu â 4.0m yn 2019-20."*[9]

**14.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> *"I think it's fair to say that we have supported the sector. There are challenges, as we know, as we all understand, and the opportunities that we understand. But I just want to take you back to what was said in this committee a few weeks ago by the leadership of Amgueddfa Cymru, where they described their position as 'fabulous'."*[10]

**15.** Roedd dadansoddiad y Gweinidog o anghenion ariannu'r sector diwylliant yn pwyso'n drwm ar y defnydd o'r gair gwych gan Brif Weithredwr Amgueddfa Cymru. I roi cyd-destun, dyma'r paragraff perthnasol o sesiwn y Pwyllgor gydag Amgueddfa Cymru:

> *"If we were just in line with inflation, that would leave us just under £3 million short of what we need for our steady-state strong revenue performance. So, we would need to find ways of reducing programming and activities to address that shortfall. Clearly, there are always the two completely distinct but linked matters for us of the revenue and the capital. If we were only to get an inflationary rise on capital, then that would be very problematic for us in terms of the significant works we need to do, both on that digital, as I described, and on the buildings. What has been happening recently, and particularly in the last year, is that we get our grant in aid capital of the £5 million, which I talked about, and then Welsh Government make additional available to us. They've made a very generous allocation this year. So, we've had £9 million in addition to our £5 million, which is fabulous, and is why we've been able to fast-track those works. What we would really love to see is that our grant in aid capital could be increased, so that we could plan for*

[9] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 3 Tachwedd 2025
[10] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Tachwedd 2025, paragraff 22

> *that additional amount and build it into our way of working, rather than seeing it as individual projects."*[11]

**16.** Mae'r Gweinidog a rhanddeiliaid wedi mynegi gwahanol safbwyntiau yn flaenorol ynghylch iechyd y sector diwylliant. Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft y llynedd, anghytunodd y Gweinidog â Chyngor y Celfyddydau ac Undeb y Cerddorion fod y sector mewn argyfwng. Yn adroddiad y Gyllideb Ddrafft 2025-26 roeddem wedi dweud bod "gennym bryderon sylweddol ynghylch a yw'r Gweinidog yn gwerthfawrogi'n llawn faint o bwysau sydd ar y sector."[12]

**17.** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant ym mis Mai 2025, gyda'r nod o "osod diwylliant lle mae'n perthyn: yn ganolog i fywyd Cymru."[13] Er bod pecyn buddsoddi gwerth £15 miliwn yn gefn i'r blaenoriaethau hyn, nid ydynt yn cynnwys unrhyw ymrwymiadau mesuradwy ar gyfer Llywodraeth Cymru na'r cyrff a ariennir ganddi.[14] Roedd dogfen Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant wedi costio dros £200,000 i Lywodraeth Cymru, ac nid yw'n cynnwys unrhyw gyfeiriad at y pandemig, Brexit, yr argyfwng costau byw, deallusrwydd artiffisial, na'r heriau cyllido hanesyddol sy'n wynebu'r sector.[15]

**18.** Mewn ymateb i gwestiwn am anghenion cyfalaf y cyrff sy'n dod o dan Flaenoriaethau ar gyfer Diwylliant Llywodraeth Cymru, clywsom gan un o swyddogion y Gweinidog:

> *"There is a piece of work that is being done right now under the priorities for culture to look at the wider capital requirements across all of the sectors that are covered by the priorities for culture."*[16]

**19.** Dywedodd fod y gwaith hwn wedi mynd allan i dendr ac y dylai fod gennym ddealltwriaeth well o lawer yn ystod y chwe mis nesaf nag sydd gennym ar hyn o bryd.[17]

---

[11] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 8 Hydref 2025, paragraff 24
[12] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 - Chwefror 2025, paragraff 28
[13] Llywodraeth Cymru: Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant – Mai 2025, tudalen 3
[14] Llywodraeth Cymru: Datganiad i'r Wasg – Blaenoriaethau Newydd ar gyfer Diwylliant i ganolbwyntio ar gyfleoedd i bawb – Mai 2025
[15] Cais Rhyddid Gwybodaeth: ATISN 23263 – Priorities for Culture
[16] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Tachwedd 2025, paragraff 98
[17] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Tachwedd 2025, paragraff 102

**20.** Nododd y Gweinidog ar sawl achlysur fod buddsoddiadau mewn diwylliant a chwaraeon hefyd yn cael eu gwneud gan adrannau'r llywodraeth y tu allan i'w bortffolio. Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch faint oedd y buddsoddiad hwn, dywedodd:

> *"I will provide a figure, Chair, of investment from other portfolios where they have invested in programmes or activities that have contributed to the culture and arts sector."*[18]

**21.** Yn dilyn hyn, ysgrifennodd y Gweinidog at y Pwyllgor gan ddarparu ffigur ar gyfer buddsoddiad cyfalaf a refeniw o bortffolios eraill pan fyddant wedi buddsoddi mewn rhaglenni neu weithgareddau sydd wedi cyfrannu at y sector diwylliant a'r celfyddydau. Nododd hyn fuddsoddiad o bron i £230 miliwn mewn diwylliant o bob rhan o'r Llywodraeth, sy'n cynnwys £152.1 miliwn o refeniw a £75.4 miliwn o gyfalaf. Cyfrifwyd y ffigur hwn ym mis Gorffennaf 2025. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor fod y ffigur hwn yn cynnwys buddsoddiad o'i bortffolio ei hun, ac nad yw'n cynnwys cyhoeddiadau diweddar am gyllid, a data arall lle "mae'n anodd datgymalu peth o'r data - er enghraifft, cyllid i awdurdodau lleol ar gyfer gwasanaethau diwylliannol, a chyllid i gefnogi gweithgareddau treftadaeth yn y Parciau Cenedlaethol."[19]

**22.** Nododd y Gweinidog sawl gwaith fod lle i ddyraniadau yn ei bortffolio i newid rhwng y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Derfynol. Mynegodd hefyd ei awydd i weld dyraniadau'n cynyddu yn y meysydd hyn yn y dyfodol, a dywedodd:

> "This is a journey, and we want to go beyond that in the future. This is an initial—. It's a draft budget, and there are opportunities for Members around this committee table and beyond to help shape that in the future."[20]

### Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryder, ers blynyddoedd, ac mewn adroddiadau olynol, am iechyd diwylliant a chwaraeon. Yn ein hadroddiad yn 2025, "Degawd o doriadau:", daethom i'r casgliad fod tanariannu hanesyddol yn y sector gan

[18] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Tachwedd 2025, paragraff 84
[19] Llywodraeth Cymru: Llythyr i'r pwyllgor gan y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol - 4 Rhagfyr 2025
[20] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Tachwedd 2025, paragraff 42

Lywodraeth Cymru, sydd wedi cael ei waethygu gan ostyngiadau mewn cyllid refeniw dros y blynyddoedd diwethaf, yn golygu:

*"Mae'r sectorau diwylliant a chwaraeon yn fregus a heb ddigon o adnoddau sydd wedi arwain at fynediad annigonol at ddiwylliant a chwaraeon ledled y wlad, sy'n tanseilio ymdrechion i ehangu mynediad gan ein cyrff cenedlaethol. Mae'r mynediad annigonol hwn yn debygol o greithio ffrwyth gwaith diwylliant a chwaraeon Cymru am flynyddoedd i ddod, oherwydd bydd llai o artistiaid a phencampwyr yfory wedi cael y cychwyn a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i lwyddo. Nid moethau ar gyfer cyfnodau llewyrchus yn unig mo diwylliant a chwaraeon. Maent yn edafedd hanfodol yng ngwead yr hyn sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw. Mae'r seilwaith cymdeithasol y mae diwylliant a chwaraeon yn ei feithrin yr un mor bwysig i genedl â'i seilwaith trafnidiaeth a chyfathrebu, ond mae wedi'i esgeuluso gan Lywodraethau Cymru dro ar ôl tro."*[21]

Yn ein hadroddiad, gwnaethom alw ar Lywodraeth Cymru i "gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon hyd nes ei fod yn gymaradwy (o ran gwariant y pen) â chyllid gwledydd tebyg" (gweler y dadansoddiad isod).[22] Roedd y dyraniadau refeniw yng Nghyllideb Ddrafft 2025-26 yn gynnydd ar linell sylfaen ddiwygiedig 2025-26, ond, gan gyfrif am chwyddiant, yn dal yn is nag yn 2023-24.

Yn gyffredinol, mae'r cyllid refeniw ar gyfer y meysydd dan sylw yn y sesiwn hon wedi cynyddu 1.9 y cant o gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27. Cyfrifir am y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn drwy gynnydd refeniw o 20 y cant ar gyfer Cymru Greadigol (i ariannu rhyddhad treth ar gyfer stiwdios ffilm). Mae'r cynnydd ar gyfer y meysydd eraill sy'n cael eu hystyried i gyd yn is na'r cynnydd refeniw cyfartalog ar draws cyllideb gyfan Llywodraeth Cymru. Mae'r dyraniadau refeniw ar gyfer Cyngor y Celfyddydau a Chwaraeon Cymru yn is na'r cynnydd a ragwelir yn lefel chwyddiant, sy'n golygu toriadau mewn termau real.

Yn gyffredinol, mae'r cyllid cyfalaf ar gyfer y meysydd dan sylw yn y sesiwn hon wedi cynyddu o £66.4 miliwn yn llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27 i £67.9 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (cynnydd o 2.2 y cant).

[21] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, tudalen 69
[22] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol, Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, tudalen 5

Nid yw'r cynnydd bychan hwn mewn refeniw – gyda rhai'n is na'r rhagolygon chwyddiant – yn gwneud fawr ddim i wneud iawn am y tanariannu hirdymor ym maes diwylliant a chwaraeon gan un Llywodraeth ar ôl y llall yng Nghymru.

Rydym yn pryderu nad yw polisi diwylliant a chwaraeon Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gyflwr y sector ac nad oes ganddo gyfeiriad strategol clir.

Roedd dadansoddiad y Gweinidog o anghenion cyllido'r sector yn canolbwyntio ar y ffaith bod Prif Weithredwr Amgueddfa Cymru wedi disgrifio un agwedd ar gyllideb gyfalaf 2025-26 fel gwych. Yn yr un ymateb, roedd hefyd wedi dweud y byddai cynnydd yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 yn unol â chwyddiant yn golygu ein bod ychydig o dan £3 miliwn yn brin o'r hyn sydd ei angen arnom ar gyfer ein perfformiad refeniw cryf a sefydlog.[23]

Dyraniad refeniw'r Amgueddfa yw 1.9 y cant; y cynnydd chwyddiannol cyffredinol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth bennu'r Gyllideb Ddrafft hon yw 2-2.2 y cant. Wrth i'r Gweinidog ddyfynnu tystiolaeth yr Amgueddfa yn rhannol, nid yw'n ymddangos fel petai'n adlewyrchu awydd i ddeall anghenion ariannu'r sector na gosod cyllidebau yn unol â hynny.

Cyhoeddwyd Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant Llywodraeth Cymru ym mis Mai 2025 ar ôl aros am 4 blynedd ac ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i wneud y canlynol: "Ymgysylltu â sector y celfyddydau, y sector diwylliant a'r sector treftadaeth i ddatblygu strategaeth ddiwylliant newydd."[24]

Gallai'r ddogfen hon fod wedi darparu cyfeiriad strategol y mae mawr ei angen i sector sy'n dioddef yn sgil tanariannu hirdymor a nifer o siociau strwythurol, fel y pandemig, Brexit a'r argyfwng costau byw. Yn hytrach, mae'n gyfres o ddatganiadau o fwriad eang (e.e. "Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol") yn hytrach nag ymrwymiadau pendant o'r hyn y bydd Llywodraeth Cymru yn ei wneud. Nid yw'n cynnwys dadansoddiad o'r heriau sy'n wynebu'r sector, na rhaglen ystyrlon ar gyfer mynd i'r afael â nhw.[25]

Syndod oedd clywed, 6 mis ar ôl cyhoeddi'r ddogfen Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant a mwy na 4 blynedd ers i Lywodraeth Cymru ddechrau gweithio arnynt, mai dim ond rŵan mae Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith i ddeall

[23] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 8 Hydref 2025, paragraff 24
[24] Llywodraeth Cymru: Rhaglen lywodraethu: diweddariad – Mehefin 2021, adran 8
[25] Llywodraeth Cymru: Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant – Mai 2025, tudalen 8

anghenion cyfalaf y sector diwylliant. Croesewir y gwaith hwn, ond byddai wedi bod yn ddefnyddiol pe bai wedi bod yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth a oedd yn sail i'r ddogfen Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant, ac yn wir y Gyllideb Ddrafft hon.

Ddechrau 2025, roedd adroddiad a ddatgelwyd yn answyddogol wedi disgrifio adran ddiwylliant Llywodraeth Cymru fel un lle mae "diffyg ymdeimlad o gynllunio strategol tymor hwy."[26] Nid yw'r dystiolaeth a gawsom, ynghyd â'r diffyg cynllun clir yn nogfen Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant Llywodraeth Cymru, wedi ein hargyhoeddi bod y trefniadau cynllunio strategol hirdymor hyn bellach ar waith.

Rydym yn croesawu sylw'r Gweinidog bod cyfle i newid y sefyllfa rhwng y gyllideb ddrafft a'r gyllideb derfynol, yn ogystal â'i ddyheadau i gynyddu cyllid yn y meysydd hyn.[27] O ystyried y tanariannu hirdymor yn y meysydd hyn, a bod y rhan fwyaf wedi cael cynnydd sy'n is na'r cynnydd chwyddiannol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru yn y Gyllideb Ddrafft, dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon yn y Gyllideb Derfynol.

**Argymhelliad 2.** Dylai Llywodraeth Cymru roi ffigurau i'r Pwyllgor ar gyfanswm y gwariant refeniw a chyfalaf ar ddiwylliant a chwaraeon gan adrannau nad ydynt yn ymwneud â diwylliant a chwaraeon. Dylai hyn gynnwys, ar gyfer pob blwyddyn ers 2024-25, ddadansoddiad o'r cyllid yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb ac esboniad o sut cafodd y cyllid hwn ei ddefnyddio ar gyfer diwylliant neu chwaraeon

## Gwariant ataliol

**23.** Yn ein hadroddiad yn 2025, Degawd o doriadau, argymhellodd y Pwyllgor:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyflwyno, ar draws ei holl adrannau, gategori 'ataliol' o wariant yng nghyllidebau'r dyfodol, gan symud tuag at olwg cyllidebu tymor hwy er mwyn helpu i gynyddu a diogelu iechyd*

[26] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Llythyr at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ar adroddiad yr is-adran Diwylliant a ddatgelwyd yn answyddogol – 4 Mawrth 2025
[27] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 38

*y boblogaeth. Byddai hyn yn helpu i gydnabod a chyllido diwylliant a chwaraeon yn briodol am y gwerth sydd ganddynt y tu hwnt i'w gwerth cynhenid.”*[28]

**24.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Dywedodd

> *“Bydd ymwreiddio dull ataliol ymhellach yn ystyriaeth bwysig yn Adolygiad o Wariant parhaus Cymru, a fydd yn edrych ar y cynllunio cyllidol tymor hwy ar gyfer Llywodraeth Cymru ac a fydd yn bwydo i gyllidebau'r dyfodol ar yr adeg briodol”.*[29]

**25.** Yn Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn galw am neilltuo cyllid ataliol. Mae’r adroddiad yn nodi:

> ***“Neilltuo cyllid atal.***
>
> *Rhaid i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus ddiogelu a chynyddu cyllidebau atal bob blwyddyn, a symud tuag at drefniadau ariannu hirdymor.”*[30]

**26.** Ym mis Ebrill 2025, cyhoeddodd Archwilio Cymru adroddiad “Dim amser i’w golli: Gwersi o’n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol”.[31] Roedd yr adroddiad hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i “archwilio ffyrdd eraill, cyflenwol, o hybu buddsoddiad mewn atal hefyd.”[32] Dylai hyn gynnwys gweithio gyda chyrff cyhoeddus i:

- gryfhau’r ddealltwriaeth am lefelau buddsoddi mewn atal a’i effaith;
- adeiladu ar waith i wreiddio atal ym mhroses y gyllideb gan ystyried, er enghraifft, gyfleoedd i ddod â chyllid ynghyd ar draws gwahanol rannau o’r system i gefnogi atal;

[28] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon - Ionawr 2025. Argymhelliad 2
[29] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon - Chwefror 2025, tudalen 5
[30] Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru: Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2025, tudalen 5
[31] Archwilio Cymru: Dim amser i’w golli: Gwersi o’n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol – Ebrill 2025
[32] Archwilio Cymru: Dim amser i’w golli: Gwersi o’n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol – Ebrill 2025, tudalen 47

- cymell a diogelu gwariant ataliol ar lefel leol; a
- dysgu oddi wrth eraill y tu hwnt i Gymru, er enghraifft, gan ystyried gwaith y mae CIPFA yn ei wneud ar ddeall gwariant ataliol.[33]

**27.** Dywedodd Archwilio Cymru, ddeng mlynedd ar ôl ei gyflwyno, nad yw Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol "yn ysgogi'r newid system gyfan a fwriadwyd."[34]

**28.** Gwrthododd Llywodraeth Cymru argymhelliad Archwilio Cymru.[35] Eglurodd:

> *"Mae'n egwyddor hirdymor gan Lywodraeth Cymru i geisio osgoi neilltuo cyllid gan y gall hyn leihau gallu sefydliadau i reoli eu cyllidebau eu hunain yn unol â'u cyfrifoldebau."*[36]

**29.** Gwnaethom ofyn i'r Gweinidog am enghreifftiau o adegau pan roedd Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar un maes ar draul rhywbeth arall gyda'r bwriad o leihau gwariant cyhoeddus yn y dyfodol. Eglurodd:

> *"The first one where we've invested in this department is investment in mental health training places for every single football club in Wales. That's a direct investment from this portfolio. It was a decision that I wanted to make because of the reasons that we've seen far too publicly of the issue of suicide and mental health for young men in particular."*[37]

A:

> *"We introduced the women's golf legacy fund, and that was a £1 million fund from the Economy Secretary's portfolio. So, it came from the events space, and it wasn't traditionally spent on bringing events to Wales … that has seen is increased participation in the women's and girls' game of golf, as well as just helping generally. I think that's a good way of increasing*

[33] Archwilio Cymru: Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Ebrill 2025, tudalen 47
[34] Archwilio Cymru: Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Ebrill 2025, tudalen 4
[35] Archwilio Cymru: Ffurflen Ymateb Rheolwyr Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Ebrill 2025.
[36] Archwilio Cymru: Ffurflen Ymateb Rheolwyr Dim amser i'w golli: Gwersi o'n gwaith dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Ebrill 2025, tudalen 7
[37] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 13

*activity in sport, as this committee no doubt recognises as well, and it's one of those ways towards preventative health."*[38]

**30.** Ym mis Mehefin 2025, daeth Cymru y "genedl Marmot" gyntaf, gan "fabwysiadu wyth egwyddor yr arbenigwr iechyd cyhoeddus, Syr Michael Marmot. Nod yr egwyddorion yw ceisio dileu gwahaniaethau annheg y gellid eu hosgoi ym maes iechyd."[39] Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys cryfhau "rôl ac effaith atal salwch."[40]Dywedodd yr Athro Marmot:

*"Mae gofal iechyd, wrth gwrs, yn bwysig i iechyd. Ond yr hyn sy'n bwysicach yw amgylchiadau cymdeithasol, fel sydd wedi'u crynhoi yn yr wyth egwyddor Marmot. Mae'r goblygiadau polisi yn glir. Mae polisi iechyd ar gyfer y llywodraeth gyfan, nid dim ond ar gyfer yr adran iechyd neu'r gwasanaeth iechyd."*[41]

**31.** Gofynnodd y Pwyllgor i'r Gweinidog sut roedd penderfyniad Llywodraeth Cymru i fod yn genedl Marmot wedi arwain at ddewisiadau penodol o ran gwariant ataliol. Dywedodd:

*"So, I think the journey of becoming a Marmot nation, and then, indeed, afterwards, continues. Our budget is particularly focused on prevention as well. The sport and arts portfolio, if not all of the spend, goes to preventing ill health in some way, because that's what access to sport and culture does. And I look back to the answer that I gave to your earlier question and some of the direct investments, the particular investment on the golf fund, which is quite a significant investment, across 49 clubs across Wales. Well, that is part of becoming a Marmot nation, isn't it? A journey to which we prevent ill health through access to sport and others, and that came from a different portfolio line, not my own, so there's an example there. But, as we become a Marmot nation, we've signed up to the principles of that, then, obviously, I think there are other opportunities to look at more spend in the*

---

[38] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 14
[39] Llywodraeth Cymru: Datganiad i'r Wasg: Cymru fydd 'cenedl Marmot' gyntaf y byd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd – Mehefin 2025
[40] Llywodraeth Cymru: Datganiad i'r Wasg: Cymru fydd 'cenedl Marmot' gyntaf y byd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd – Mehefin 2025
[41] Llywodraeth Cymru: Datganiad i'r Wasg: Cymru fydd 'cenedl Marmot' gyntaf y byd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd – Mehefin 2025

> *preventative space, and I'll look to Cabinet colleagues to see that."*[42]

**32.** Yn 2024, cyhoeddodd Chwaraeon Cymru ymchwil a oedd yn dangos:

> *"am bob £1 a fuddsoddir mewn chwaraeon yma, fod elw o £4.44."*[43]

**33.** Yn 2021-22, cyfrifwyd bod y manteision iechyd a gynhyrchwyd gan Chwaraeon Cymru yn £621 miliwn.

**34.** Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2025-26 yn nodi:

> *"Gall chwaraeon fod yn adnodd ataliol effeithiol iawn o ran iechyd, ond mae angen mwy o flaenoriaethu traws-sector i greu'r newidiadau cynaliadwy hirdymor o ran cyfranogiad."*[44]

**35.** Yn ein sesiwn dystiolaeth dywedodd y Gweinidog:

> *"I think everything that Sport Wales does, by the very nature of encouraging physical activity, supports progress towards a Marmot nation."*[45]

### Ein barn ni

Dros nifer o gylchoedd cyllideb, rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru egluro sut mae'r nod o atal gwariant yn y dyfodol wedi dylanwadu ar y penderfyniadau a wneir ynghylch y gyllideb. Nid ydym eto wedi cael ateb clir sy'n rhoi sicrwydd i ni ei bod hi'n gweithio mewn ffordd strategol mewn perthynas â'r mater hwn.

Mae Archwilio Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Pwyllgor hwn wedi eiriol dros symud cyllid tuag at atal, yn ogystal â bod yn ganolog i'r cysyniad o "genedl Marmot". Yn nhystiolaeth y Gweinidog ar atal, tynnodd sylw at waith iechyd meddwl mewn clybiau pêl-droed, a chronfa waddol golff i fenywod. Mae'r ddau gynllun yn swnio'n werth chweil. At hynny, roedd cefnogaeth bersonol y

---

[42] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 51
[43] Chwaraeon Cymru: Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad Chwaraeon yng Nghymru 2024.
[44] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ysgrifenedig ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 – Ionawr 2025, tudalen 9
[45] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 180

Gweinidog i'r prosiectau hyn yn amlwg, ac mae hynny i'w ganmol. Nodwn, fodd bynnag, fod y gostyngiad mewn termau real yn nyraniad refeniw Chwaraeon Cymru yn dangos nad yw Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r buddsoddiad mewn chwaraeon i gydnabod ei rôl o ran atal afiechyd. Nid yw cymryd atal o ddifrif o reidrwydd yn golygu bod angen polisïau newydd, ond yn hytrach, sicrhau bod y sefydliadau sy'n gwneud gwaith y gwyddom ei fod yn ataliol ei natur yn cael eu cyllido'n well.

Er mwyn bod yn ystyrlon, dylai penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddod yn Genedl Marmot gael ei adlewyrchu yn y camau mae'r llywodraeth yn eu cymryd i wneud rhai pethau'n wahanol. Er nad chwaraeon yw'r unig ffordd o gynyddu gweithgarwch corfforol (er enghraifft, mae gan deithio llesol rôl allweddol i'w chwarae), mae'n bendant yn adnodd pwysig.

Felly, mae'n syndod gweld nad yw'r llywodraeth wedi trafod rhoi Marmot ar waith gyda Chwaraeon Cymru, o ystyried y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers tro rôl gweithgarwch corfforol o ran atal afiechyd.

Dywedodd y Gweinidog wrthym: “the sport and arts portfolio [...] goes to preventing ill health in some way, because that's what access to sport and culture does”. Rydym yn cytuno, ond yn nodi gyda phryder bod y cynnydd mewn cyllid refeniw ar gyfer y rhan fwyaf o gyrff diwylliant a chwaraeon yn y Gyllideb Ddrafft hon yn is na'r cynnydd chwyddiannol cyffredinol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru wrth osod y Gyllideb Ddrafft hon.

Rydym yn cydnabod bod symud gwariant tuag at atal yn heriol. Fodd bynnag, mae'r her hon yn un y mae'r llywodraeth wedi dewis ei mabwysiadu'n rhagweithiol drwy ymrwymo i egwyddorion bod yn genedl Marmot. Rhaid i hyn gael ei adlewyrchu mewn cyllid mwy cynaliadwy ar gyfer cyrff diwylliant a chwaraeon.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru gysoni cyllidebau â gwariant ataliol, fel yr argymhellwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Archwilio Cymru a'r Pwyllgor hwn. Man cychwyn fyddai cynyddu'r cyllid ar gyfer diwylliant a chwaraeon.


## Cymhariaeth Ryngwladol

**36.** Mae Ymchwil y Senedd wedi dadansoddi cyfanswm gwariant y llywodraeth yng Nghymru a gwledydd eraill yn Ewrop. Mae data diweddar yn diweddaru

data'r flwyddyn flaenorol a gafodd ei gynnwys yn adroddiad Degawd o doriadau 2025 y Pwyllgor.[46]

**37.** Mae'r dadansoddiad diweddaraf o wariant y llywodraeth yng Nghymru a gwledydd eraill yn Ewrop yn dangos mai £180.24 y pen sy'n cael ei wario ar gyfartaledd ar wasanaethau hamdden a chwaraeon yn y gwledydd hyn. Yng Nghymru, y ffigur yw £61.84 y pen, neu 34 y cant o gyfartaledd y gwledydd hyn. Mae hyn yn golygu mai Cymru yw'r isaf ond un o blith y grŵp o 25 gwlad.[47]

***Gwariant gwasanaethau hamdden a chwaraeon y pen mewn GBP (£), 2023***[48]





- Y gwariant cyfartalog ar wasanaethau diwylliannol yn y gwledydd hyn yw £223.85 y pen. Yng Nghymru, y ffigur yw £73.27 y pen, neu 33% o

[46] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025.
[47] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, tudalen 88
[48] Ymchwil y Senedd: Dadansoddiad o ddata Llywodraeth Cymru, StatsCymru a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd

gyfartaledd y gwledydd hyn. Mae hyn yn golygu mai Cymru yw'r isaf ond un o blith y grŵp o 25 gwlad.[49]

***Gwariant gwasanaethau diwylliannol y pen mewn GBP (£), 2023***[50]




**38.** Yn ein sesiwn, cwestiynodd y Gweinidog gywirdeb y ffigurau hyn. Dywedodd:

> *"If you point to the committee table that the committee has used in a number of different ways, that table itself has caveats within that comparison. Is it a like-for-like comparison with where we spend our money? Is it including revenue? Is it including capital? Does it include sport? Does it include creative? Does it include all of those things for each nation?"*[51]

---

[49] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon, Ionawr 2025, tudalen 89
[50] Ymchwil y Senedd: Dadansoddiad o ddata Llywodraeth Cymru, StatsCymru a'r Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd
[51] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 18

**39.** Fel y trafodwyd yn adroddiad y Gyllideb Ddrafft y llynedd, mae'r data a gyflwynwyd yn ymdrin â dau faes Dosbarthu Swyddogaethau'r Llywodraeth (COFOG): 8.1 - Gwasanaethau hamdden a chwaraeon ac 8.2 – Gwasanaethau diwylliannol.[52] Diffinnir y meysydd hyn gan Is-adran Ystadegau'r Cenhedloedd Unedig sy'n datblygu safonau a normau byd-eang ar gyfer gweithgareddau ystadegol.[53] Roedd y fethodoleg a ddefnyddiwyd i greu'r data hwn yn debyg i'r The State of the Arts adroddiad a gynhyrchwyd gan Campaign for the Arts a Phrifysgol Warwick.[54] Mae adroddiad y llynedd hefyd yn nodi y cafwyd y data gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), y mae'r Deyrnas Unedig yn aelod sylfaenol ohono, sy'n gosod ac yn cefnogi'r gwaith o weithredu safonau rhyngwladol.[55] Cafodd y data hwn ei wirio yn erbyn ffynonellau dibynadwy eraill, EuroStat, lle bo hynny'n berthnasol i sicrhau bod modd dibynnu ar y data. Roedd y data yn cynrychioli Cyfanswm Gwariant y Llywodraeth sy'n cynnwys refeniw a chyfalaf, ynghyd â chyllid llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.[56]

## Diwylliant a'r Celfyddydau

**40.** Mae'r maes gwariant hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer Cyngor Celfyddydau Cymru, Amgueddfa Cymru, y Llyfrgell Genedlaethol a chymorth ar gyfer diwylliant lleol a chwaraeon.

**41.** O gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27, mae'r cyllid refeniw ar gyfer y Cam Gweithredu hwn yn codi o £89.2 miliwn i £90.1 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 (cynnydd o 1 y cant). Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn cynyddu o £40.2 miliwn i £41.5 miliwn (cynnydd o 3.1 y cant).

**42.** Mae tystiolaeth y Gweinidog ar gyfer y sesiwn hon yn nodi:

> *"Er fy mod yn gwerthfawrogi ei fod yn gyfnod heriol i'r sector diwylliant o hyd, bydd y cynnydd i'w cymorth grant refeniw yn 2026-27 yn helpu Amgueddfa Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu, megis*

[52] Is-adran Ystadegau'r Cenhedloedd Unedig: Manylion Dosbarthu – COFOG 8.1 - Gwasanaethau hamdden a chwaraeon a 8.2 – Gwasanaethau diwylliannol
[53] Is-adran Ystadegau'r Cenhedloedd Unedig
[54] Campaign for the Arts a Phrifysgol Warwick: The State of the Arts – Gorffennaf 2024
[55] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD)
[56] EuroStat - porwr data

*Celf, a chynyddu cyflogau yn unol â gweddill y sector cyhoeddus."*[57]

**43.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog pam mae gwariant refeniw ar ddiwylliant a'r celfyddydau yn is na'r cynnydd cyfartalog yng nghyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru, dywedodd:

> *"This is a restated budget. We've provided the arts council in particular in particular with a targeted increase in pay awards, and then they've had the increase slightly to the revenue fund there, but this is, again, the start of a process—it's a draft budget, and then the final budget."*[58]

### Amgueddfa Cymru

**44.** O gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-2027, mae'r cyllid refeniw ar gyfer yr Amgueddfa yn codi o £28 miliwn i £28.5 miliwn yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27 (cynnydd o 1.9 y cant). Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn cynyddu o £5 miliwn i £5.5 miliwn (cynnydd o 10 y cant).

**45.** Yn ystod ein gwaith craffu blynyddol ar Amgueddfa Cymru, nododd yr amgueddfa farn y byddai cyllideb chwyddiant yn unig yn gwneud y canlynol:

> *"would leave us just under £3 million short of what we need for our steady-state strong revenue performance. So, we would need to find ways of reducing programming and activities to address that shortfall."*[59]

**46.** Clywsom hefyd, mewn perthynas â phrosiectau cyfalaf, fod Amgueddfa Cymru mewn lle gwahanol iawn i'r blynyddoedd blaenorol yn dilyn cynnydd sylweddol yn y cyllid cyfalaf sydd ar gael iddi er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon mwyaf taer. Fodd bynnag, nododd Amgueddfa Cymru hefyd y risgiau parhaus a'r anghenion cyllido sy'n gysylltiedig ag adeilad Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.[60]

---

[57] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 3 Tachwedd 2025, tudalen 17
[58] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 107
[59] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 8 Hydref 2025, paragraff 24
[60] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 8 Hydref 2025, paragraff 14

**47.** Ar ben hynny, ac fel y nodwyd yn flaenorol, mae Amgueddfa Cymru wedi amlinellu'r lefel uchel (a'r lefel anghymesur o bosibl) o lywodraethu sy'n deillio o ddarparu cyllid cyfalaf fel gwariant ychwanegol heb ei gynllunio yn hytrach na chymorth grant cyfalaf. Clywsom dystiolaeth fod prosiectau sy'n werth mwy na £2m yn golygu bod yn rhaid i'r Amgueddfa fynd drwy fodel busnes llawn, ac y gall gymryd hyd at ddwy flynedd i'w lunio.[61]

**48.** Roedd adroddiad Degawd o doriadau'r Pwyllgor yn cynnwys argymhelliad a oedd â'r bwriad o fynd i'r afael â phroses lywodraethu anhylaw Llywodraeth Cymru:

> *"Dylai Llywodraeth Cymru rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall gael gwared ar rwystrau megis gofynion achos busnes, ac yn lle hynny darparu mwy o gyllid fel cyfraniadau ychwanegol at eu cymorth grant."*[62]

**49.** Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad hwn, gan ddweud:

> *"Mae gan y cymorth grant a ddarperir i sefydliadau hyd braich diwylliant a chwaraeon y diben penodol o gefnogi eu costau gweithredol, neu mae'n gyllid y maent yn ei drosglwyddo ar ffurf grantiau i sefydliadau eraill. Pan fydd y sefydliadau hynny'n gofyn am gyllid ychwanegol, ar wahân, ar gyfer prosiectau penodol, er enghraifft, i gefnogi gwelliannau i'r seilwaith, mae'r dull y cytunir arno yn gofyn am i wybodaeth ychwanegol gael ei darparu drwy ddatblygu achosion busnes.*
>
> *Mae'r gofyniad i ddatblygu achos busnes methodoleg Model Pum Achos yn ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus, yn unol â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Dyluniwyd y canllawiau achosion busnes i'w defnyddio'n gymesur, yn unol â lefel y gwariant a'r risg sy'n gysylltiedig â menter benodol a chydag ystyriaeth i'r llwybr i'r farchnad h.y. y math o gaffael ydyw. Defnyddir y broses datblygu*

[61] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 8 Hydref 2025, paragraff 28
[62] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon - Ionawr 2025, Argymhelliad 5

> *achosion busnes i ddiffinio'r prosiect yn glir ac asesu ei risgiau, gwerth am arian, addasrwydd strategol a'r gallu i gyflawni, gan ganiatáu i swyddogion ddarparu cyngor cadarn i Weinidogion am benderfyniadau buddsoddi sylweddol. Y tu hwnt i gynlluniau grant cystadleuol penodol, defnyddir y dull hwn fel safon ar draws Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau seilwaith."*[63]

**50.** Mae'n werth nodi bod Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i leihau'r baich gweinyddol o ran gwario cyllid Llywodraeth Cymru. Mae llywodraeth leol wedi galw'n gyson ar Lywodraeth Cymru i leihau swm y grantiau penodol y mae'n eu darparu er mwyn lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol. Mae cytundeb partneriaeth strategol rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i barhau i adolygu lefelau'r cyllid wedi'i neilltuo o dan y setliad llywodraeth leol a "bydd grantiau'n cael eu neilltuo neu eu cyfuno ymhellach lle bo hynny'n bosibl."[64]

### Ein barn ni

Fel yr argymhellwyd yn ein hadroddiad Degawd o doriadau, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o gyllid cyfalaf Amgueddfa Cymru fel cymorth grant er mwyn osgoi dyblygu prosesau llywodraethu (i'r Amgueddfa yn ogystal â Llywodraeth Cymru.)[65]

Gwrthododd Llywodraeth Cymru yr argymhelliad blaenorol hwn. Nodwn ei esboniad y "dyluniwyd [y canllawiau achosion busnes] i'w defnyddio'n gymesur, yn unol â lefel y gwariant a'r risg." Nid yw'r disgrifiad rydym wedi'i glywed o ofynion achos busnes cyllid cyfalaf yr Amgueddfa yn swnio'n gymesur nac yn unol â lefel y risg. Nodwn y cytundeb gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i leihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol.[66] Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ailedrych ar yr achos dros lefel is o oruchwyliaeth, o ystyried y costau sylweddol sy'n gysylltiedig â hynny i'r Amgueddfa a Llywodraeth Cymru, yn ogystal â'r oedi i waith pwysig, wrth gydymffurfio â'r gofynion hyn.

---

[63] Llywodraeth Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon - Chwefror 2025, tudalen
[64] Llywodraeth Cymru, Cytundeb Partneriaeth Strategol gyda llywodraeth leol, Mehefin 2025
[65] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Degawd o doriadau: Effaith gostyngiadau cyllid ar ddiwylliant a chwaraeon - Ionawr 2025
[66] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: Lleihau'r baich gweinyddol ar awdurdodau lleol, 2 Mai 2023

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru rymuso sefydliadau diwylliant a chwaraeon drwy eu galluogi i wario cyllid ychwanegol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn unol â'u prosesau llywodraethu eu hunain, a heb fod angen awdurdodiad ychwanegol diangen gan Lywodraeth Cymru. Wrth wneud hynny, dylai ystyried sut y gall leihau'r baich gweinyddol, ac yn lle hynny darparu mwy o gyllid fel cyfraniadau ychwanegol at eu cymorth grant.

### Oriel Celf Gyfoes Genedlaethol (Celf)

**51.** Mae Cyngor y Celfyddydau, Amgueddfa Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth i gyflawni'r prosiect hwn gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrthym fod Celf:

> *"Is a priority for the Government. It's a priority for arm's-length bodies as well, and I think we've seen the success of Celf across Wales, particularly in the galleries within which we've been able to display."*[67]

**52.** Ym mis Medi 2025, dywedodd y Gweinidog:

> *"I want to get to a place in the future where Celf (the National Contemporary Art Gallery) is sustained through the partners, but there has been a request of additional funds for next year. I think it's £395,000 for 2026-27. I've agreed in principle that we will support them with that fund as requested."*[68]

**53.** Fel rhan o'n gwaith craffu blynyddol ar gyrff hyd braich, fe wnaethom ofyn i bartneriaid Celf am fodel cyllido'r llywodraeth. Dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru wrthym:

> *"The three organisations involved - ourselves, the Amgueddfa and Llyfrgell Genedlaethol Cymru - have noted repeatedly for about three or four years that this project will continue to need additional support from Government, unless, of course, there is a budgetary settlement that is in excess of flatline."*[69]

[67] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol - 19 Tachwedd 2025, paragraff 123
[68] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 17 Medi 2025, paragraff 77
[69] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 2 Hydref 2025, paragraff 308

**54.** Dywedodd Amgueddfa Cymru wrthym:

> *"There have been two independent assessments of whether the model could ever be self-sustaining, and both of those have said that it cannot be. So, either there needs to be additional money identified once we get to the end of the current funded period, or we as the Amgueddfa are left in the very difficult position of either having to reduce that programme or reduce other things that we do in order to fund that programme."*[70]

**55.** Yn ein sesiwn dystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft, dywedodd y Gweinidog:

> *"it is still my view that it should be self-sustaining as a project and through partners as well."*[71]

**Ein barn ni**

Mae'r Pwyllgor wedi nodi barn y partneriaid bod Celf angen cyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru. Dywedodd y Gweinidog wrthym sawl gwaith fod y prosiect yn flaenoriaeth. O'r herwydd, byddem yn disgwyl i'r prosiect gael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Rydym yn pryderu'n fawr, yn wyneb cyllid sydd wedi gwastatáu mewn termau real, neu hyd yn oed doriadau, y gofynnir i'r partneriaid leihau gweithgareddau craidd i ariannu prosiect y Llywodraeth ei hun.

Roedd yr Amgueddfa wedi dweud wrthym: "There have been two independent assessments of whether the model could ever be self-sustaining, and both of those have said that it cannot be. Felly, roeddem wedi synnu pan glywsom y Gweinidog yn dweud ei fod yn teimlo y dylai'r prosiect fod yn hunangynhaliol. Hoffem ddeall y rhesymeg dros y penderfyniad hwn gan ei fod yn ymddangos fel petai'n gwrth-ddweud dau asesiad annibynnol.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- sefydlu ffrwd gyllido hirdymor gynaliadwy ar gyfer prosiect Celf.

[70] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 8 Hydref 2025, paragraff 105
[71] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 135

- darparu'r rhesymeg dros safbwynt y Gweinidog y dylai prosiect Celf fod yn hunangynhaliol, o gofio bod hynny fel petai'n mynd yn groes i ddau asesiad annibynnol o'r prosiect.

## Chwaraeon a gweithgarwch corfforol

**56.** Y maes hwn sy'n darparu cyllid i Chwaraeon Cymru. O gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-2027, mae'r cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru yn codi o £23.19 miliwn i £23.24 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (cynnydd o 0.2 y cant).

**57.** Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn gostwng o £10 miliwn i £9.5 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (gostyngiad o 5 y cant). Daw'r gostyngiad hwn o ganlyniad i gostau o £1miliwn y cynllun benthyciadau cyfalaf – mae cyllideb gyfalaf Chwaraeon Cymru yn cynyddu £0.5 miliwn.

**58.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> *"Our budget is particularly focused on prevention as well. The sport and arts portfolio, if not all of the spend, goes to preventing ill health in some way, because that's what access to sport and culture does."*[72]

**59.** Dywedodd hefyd:

> *"I think everything that Sport Wales does, by the very nature of encouraging physical activity, supports progress towards a Marmot nation."*[73]

**60.** Roedd y gyllideb refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru wedi cynyddu 0.2 y cant. Eglurodd y Gweinidog:

> *"This is the draft period. There's a process that can take place between draft and final period. It's also, I think, important to point to the increase in capital funding that Sport Wales has had*

[72] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 51
[73] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 180

> *as well to continue the work that they do in this draft budget, which has increased to £10.5 million in this draft budget..”*[74]

**Ein barn ni**

Roeddem wedi synnu ac wedi ein siomi i glywed yn ein sesiwn graffu flynyddol gyda Chwaraeon Cymru nad oedd Llywodraeth Cymru wedi trafod y cyfraniad y gall Chwaraeon Cymru ei wneud i statws newydd Cymru fel cenedl Marmot.[75]

Gwyddom ei fod yn rhatach o lawer buddsoddi mewn atal na delio â chanlyniadau afiechyd. Mae'r cysylltiad rhwng gweithgarwch corfforol ac egwyddor Marmot o atal afiechyd yn glir. Yn wir, cafodd hyn ei gydnabod gan y Gweinidog yn ei sesiwn dystiolaeth. Byddai'n rhesymol disgwyl i unrhyw ymgais i gynyddu cyllid ataliol gael ei adlewyrchu, yn rhannol, mewn gwell cyllid i Chwaraeon Cymru. Er bod y Gweinidog wedi cyflwyno dyraniad Chwaraeon Cymru fel cyllideb ailddatganedig, nid oes lle i gyflwyno cynnydd o 0.2 y cant fel dim byd mwy na thoriad mewn termau real.[76]

Dywedodd y Gweinidog wrthym: “There's a process that can take place between draft and final period”. Rydym yn annog y llywodraeth i ddefnyddio'r cyfle hwn i wrthdroi'r toriadau termau real hyn i Chwaraeon Cymru.

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r cyllid refeniw ar gyfer Chwaraeon Cymru er mwyn iddo gael o leiaf y cynnydd cyfartalog mewn cyllidebau refeniw a ddefnyddir ar draws cyllideb gyffredinol Llywodraeth Cymru.

## Yr amgylchedd hanesyddol

**61.** Caiff yr amgylchedd hanesyddol ei ariannu’n bennaf drwy Cadw (is-adran treftadaeth Llywodraeth Cymru), ond mae hefyd yn cynnwys yr Ardd Fotaneg Genedlaethol a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

**62.** O gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-2027, mae'r cyllid refeniw ar gyfer y Cam Gweithredu hwn yn codi o £25.2 miliwn i £25.5 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (cynnydd o 1.6 y cant).

---

[74] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 172
[75] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Llythyr at Chwaraeon Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 25 Medi – 10 Tachwedd 2025
[76] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 10

**63.** Dros yr un cyfnod, mae cyllid cyfalaf yn cynyddu o £9.2 miliwn i £9.5 miliwn (cynnydd o 2.5 y cant).

### Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru

**64.** O gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27, mae'r cyllid refeniw ar gyfer Cadw (is-adran treftadaeth Llywodraeth Cymru) yn codi o £17.1 miliwn i £17.5 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (cynnydd o 2 y cant).

**65.** O gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27, mae'r cyllid refeniw ar gyfer y Comisiwn Brenhinol yn codi o £1.82 miliwn i £1.86 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (cynnydd o 2.4 y cant).

**66.** Rydym eisoes wedi nodi effaith toriadau hanesyddol Llywodraeth Cymru i'r gyllideb ar y Comisiwn Brenhinol. Yn wir, ar ôl addasu ar gyfer chwyddiant, mae cyllid cymorth grant refeniw Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn Brenhinol wedi gostwng tua 40 y cant rhwng 2015 a 2025.[77]

**67.** Ym mis Medi 2025, dywedodd y Comisiwn Brenhinol wrthym nad yw Llywodraeth Cymru yn darparu digon o gyllid ar gyfer y gwaith y disgwylir iddo ei wneud ar ei rhan. Disgrifiwyd sut mae strwythur y Comisiwn Brenhinol wedi cael ei dorri i'r byw o ganlyniad i'r toriadau hyn, ac nid oes unrhyw gapasiti dros ben.[78]

**68.** Mewn datganiad ysgrifenedig ym mis Awst 2025, dywedodd y Gweinidog:

> *"Mae opsiynau ar gyfer y berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn y dyfodol yn cael eu harchwilio'n weithredol. Mae'r rhain yn cynnwys cynnal trefniadau cyfredol, cydweithredu ffurfiol, neu uno posibl."*[79]

**69.** Pan ofynnwyd i'r Gweinidog a oedd wedi dod i benderfyniad ynghylch y berthynas rhwng Cadw a'r Comisiwn Brenhinol, dywedodd:

[77] Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol: Llythyr at Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 25 Medi 2025 – 5 Tachwedd 2025
[78] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 25 Medi 2025, paragraff 196
[79] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Adroddiad cynnydd ar yr ymateb i'r Adolygiad o Drefniadau Llywodraethu Cadw - 18 Awst 2025

> *"No, I haven't made a decision on that yet. I'm hoping to make a decision fairly soon. Advice is coming to me and I'll make that decision then."*[80]

**Ein barn ni**

Rydym yn dal i bryderu am effaith gyfunol toriadau hanesyddol Llywodraeth Cymru i'r gyllideb ar y Comisiwn Brenhinol ynghyd â'r ansicrwydd parhaus ynglŷn â'i ddyfodol.

Mae'r Comisiwn Brenhinol yn ymgymryd â gwaith gwerthfawr i'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys nifer o swyddogaethau statudol. Mae toriadau yn y gorffennol wedi gadael y Comisiwn Brenhinol mewn sefyllfa annerbyniol o fregus. Mae'r toriadau hyn, a waethygir gan ansicrwydd ynghylch ei ddyfodol, yn peryglu'r amgylchedd hanesyddol a'n dealltwriaeth ohono.

Credwn fod angen i'r llywodraeth weithredu'n bendant, gan ddarparu gweledigaeth hirdymor ar gyfer yr amgylchedd hanesyddol ym mha strwythur bynnag y maent yn penderfynu arno. Nid yw'r sefyllfa bresennol o ohirio penderfyniadau, ar yr un pryd â lleihau cyllid y Comisiwn mewn termau real, yn gynaliadwy.

**Argymhelliad 7.** Dylai Llywodraeth Cymru osod amserlen glir i wneud penderfyniad terfynol am y berthynas rhwng Cadw a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru.

## Diwydiannau Creadigol

**70.** O gymharu â llinell sylfaen ddiwygiedig 2026-27, mae'r cyllid refeniw ar gyfer Cymru Greadigol (is-adran diwydiannau creadigol Llywodraeth Cymru) yn codi o £7 miliwn i £8.4 miliwn yng nghyllideb ddrafft 2026-27 (cynnydd o 20 y cant).

**71.** Dros yr un cyfnod, mae dyraniad cyfalaf Cymru Greadigol yn cynyddu o £7 miliwn i £7.5 miliwn (cynnydd o 7 y cant).

**72.** Mae tystiolaeth y Gweinidog ar gyfer y sesiwn hon yn nodi:

> *"Mae ein buddsoddiad yn canolbwyntio ar sectorau â blaenoriaeth y sgrin (Ffilm a Theledu), cerddoriaeth, digidol a*

[80] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 184

> *chyhoeddi ochr yn ochr ag ymrwymiadau i'r sector darlledu a'r sector newyddiaduriaeth, yn ogystal â chyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu i wella sgiliau ar gyfer y diwydiant."*[81]

**73.** Mae papur tystiolaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer sesiwn y Pwyllgor ar y Gyllideb Ddrafft yn nodi'r canlynol:

- "dyraniad o £1.97m i Medr i gefnogi darpariaeth conservatoire cerdd a drama yn seiliedig ar berfformiad"; a
- Cytunir ar y gyllideb i gefnogi'r cyfryngau, newyddiaduraeth a darlledu ar gyfer 2026-27, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru, fel rhan o broses ffurfiol y gyllideb.
- Trosglwyddwyd £1,367m o Brif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol i gefnogi ail flwyddyn y grant ardrethi annomestig ar gyfer stiwdios cymwys yng Nghymru.[82]

**74.** Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor:

> *"we're providing Medr with that additional funding, and that will go to support the Royal Welsh College of Music and Drama, so they can continue providing that quality student experience, particularly the high-quality training that they provide for creating the arts. So, it's an allocation of funding to Medr through the higher education route, and it's going to support the Royal Welsh College of Music and Drama."*[83]

**75.** Ar ôl ein sesiwn gyda'r Gweinidog, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y diwydiannau creadigol ar 7 Rhagfyr 2025. Dywedodd:

> *"Bydd y cyllid yn darparu buddsoddiad ychwanegol i'r sector ffilm a theledu. Bydd y sector cyhoeddi hefyd yn derbyn cymorth*

[81] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 19 Tachwedd 2025, tudalen 22
[82] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 - 19 Tachwedd 2025, tudalennau 5, 24 a 22
[83] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 19 Tachwedd 2025, paragraff 197

> *i ymateb i heriau parhaus a chefnogi gwaith cynhyrchu refeniw."*[84]

**Argymhelliad 8.** Dylai Llywodraeth Cymru roi manylion pellach ynghylch y "dyraniad o £1.97m i Medr i gefnogi darpariaeth conservatoire cerdd a drama yn seiliedig ar berfformiad". Dylai'r manylion hyn gynnwys o ba ran o gyllideb Llywodraeth Cymru y daw'r cyllid hwn, pa ganlyniadau y bydd y cyllid yn eu darparu, ac a yw Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd yn cynnal y cyllid hwn yn barhaus.

**Argymhelliad 9.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion ei dyraniadau ar gyfer newyddiaduraeth ac i Gyngor Llyfrau Cymru yn 2026-27. Wrth wneud hynny, dylai egluro sut mae wedi ystyried cyflog ac amodau gwaith priodol ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y sectorau hyn.

**Argymhelliad 10.** Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i argymhellion adroddiad 2023 O Gymru ac i Gymru: Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd, gan egluro sut y bydd unrhyw waith i weithredu ar yr adroddiad hwn yn cael ei ariannu.[85]

**Argymhelliad 11.** Dylai Llywodraeth Cymru egluro a fydd cyhoeddiad Rhagfyr 2025 ynghylch £2.5 miliwn ychwanegol ar gyfer y diwydiannau creadigol yn cael unrhyw effaith ar ddyraniadau yng Nghyllideb Ddrafft 2026-27.

[84] Llywodraeth Cymru: £2.5m ychwanegol ar gyfer y sector creadigol yng Nghymru, 7 Rhagfyr 2025
[85] : Gweithgor Newyddiaduraeth er Lles y Cyhoedd Cymru: O Gymru ac i Gymru: Tuag at Ddyfodol Cynaliadwy ar gyfer Newyddiaduraeth er Budd y Cyhoedd – Gorffennaf 2023

# 3. Y Gymraeg

## Trosolwg

**76.** Mae'r Gymraeg yn faes polisi trawsbynciol, gyda gwariant wedi'i wreiddio ar draws portffolios Gweinidogion. Mae hyn yn golygu nad oes modd i ni graffu ar bob dyraniad cyllid sydd â'r nod o gefnogi'r Gymraeg. Rydym wedi canolbwyntio ein gwaith craffu ar Gamau Gweithredu yn y Gyllideb Ddrafft sy'n benodol i'r Gymraeg:

- **Y Gymraeg:** sy'n cynnwys cyllid ar gyfer y Gymraeg, (gan gynnwys cyflawni Cymraeg 2050, uchelgeisiau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a sefydlu'r seilwaith cywir i gefnogi ei defnydd), a chyllid ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg;
- **Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol):** sefydlwyd yn 2024-25, mae'r Grant Addysg Awdurdodau Lleol yn dwyn ynghyd nifer o grantiau awdurdodau lleol a chonsortia addysg;
- **Y Gymraeg mewn Addysg:** sy'n cefnogi gweithgareddau sy'n ymwneud â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg (gan gynnwys darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg), a hynny yn bennaf drwy Mudiad Meithrin.

**77.** Mae'r Gyllideb Ddrafft yn dyrannu cyfanswm o £56.4 miliwn mewn cyllid refeniw Cymraeg wedi'i dargedu ar gyfer 2026-27. Mae hyn yn cyfateb i ostyngiad o £0.8 miliwn ar y llinell sylfaen ddiwygiedig.

**78.** Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ei bapur tystiolaeth yn egluro bod y gostyngiad wedi digwydd o ganlyniad i "drosglwyddiad gweinyddol" o £2.4 miliwn o BEL y Gymraeg mewn Addysg.[86]

## BEL y Gymraeg[87]

**79.** Mae BEL y Gymraeg, y mwyaf o'r holl BELs ar gyfer y Gymraeg o bell ffordd, yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cymraeg 2050 a'i nod o gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, a sefydlu'r seilwaith cywir i gefnogi'r defnydd ohoni. Mae'n gwneud hyn

[86] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 3
[87] *Llinell Wariant yn y Gyllideb

drwy ariannu nifer o bartneriaethau, mentrau a sefydliadau sy'n cefnogi ac yn hyrwyddo'r iaith. Mae'r rhain yn cynnwys sefydliadau fel y Mentrau Iaith, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Eisteddfod Genedlaethol ac Eisteddfod yr Urdd, yn ogystal â Merched y Wawr, Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru a'r Papurau Bro.

**80.** Ar gyfer 2026-27, mae Llywodraeth Cymru'n cynnig cynnydd arian parod o £0.85 miliwn (2.2 y cant) mewn dyraniadau refeniw i'r BEL hon, o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig. O hyn, ystyrir £772,000 (2 y cant) yn gynnydd chwyddiannol. Felly, bydd cyfanswm y cyllid yn y BEL hon yn cynyddu i £39.334 miliwn ar gyfer 2026-27.

**81.** Mae'r llinell hon yn y gyllideb, yn wahanol i BEL y Gymraeg mewn Addysg, wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf. Yng Nghyllideb Derfynol 2024-25, dyrannodd Llywodraeth Cymru £23.58 miliwn i'r BEL hon, ond newidiodd y dyraniad yn sylweddol o ganlyniad i drosglwyddiad i mewn o tua £10 miliwn o gyllid craidd ar gyfer y Coleg Cymraeg Cenedlaethol o BEL y Gymraeg. Ychwanegwyd £4.55 miliwn ychwanegol at y BEL yn y gyllideb ddiwethaf (2025-26), ac roedd rhywfaint ohono'n gyllid a oedd wedi cael ei ailflaenoriaethu yn y flwyddyn ariannol flaenorol.

**82.** O'r cynnydd o £0.85 miliwn yn 2026-27, mae £0.08 miliwn o hyn yn "drosglwyddiad rheolaidd" o'r MEG addysg ar gyfer Prosiect y Gymraeg ym Mhatagonia.[88]

**83.** Er gwaethaf y cynnydd chwyddiannol yn llinell y gyllideb, ni allai Ysgrifennydd y Cabinet roi sicrwydd y byddai partneriaid sy'n cael cyllid drwy'r BEL hon yn elwa ar y cynnydd o 2 y cant. Dywedodd y byddai'r cyllid ychwanegol yn cael ei flaenoriaethu i weithredu darpariaethau yn Neddf y Gymraeg ac Addysg 2025.

## Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol a'r Athrofa

**84.** Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn glir yn ystod y gwaith craffu y dylai llawer o'r cyllid ychwanegol yn y BEL hon ganolbwyntio ar waith y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrth iddi ysgwyddo cyfrifoldebau newydd o dan Ddeddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 i fod yn Athrofa (Yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol) erbyn 2027.

[88] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 4

**85.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod y broses graffu y byddai blaenoriaethu gweithredu Deddf 2025 yn golygu bod yr Athrofa yn mynd i gael mwy na 2 y cant o'r arian ychwanegol[89]. O ganlyniad, bydd gweddill y sefydliadau sy'n cael eu hariannu drwy'r BEL hon, fel y Mentrau Iaith a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn cael llai:

> *"[...]my top priority for the budget is that it should support the implementation of the new Act. And, as I also explained earlier, in the early part of the timetable for implementing the Act comes the establishment of the Athrofa. So—I'm going to be as completely frank as I can be with the committee—if I'm not going to do that by reducing the budget for the national centre, which I don't want to do, then the Athrofa is going to get more than a 2 per cent share of the additional money, and that will mean that there will be less than 2 per cent for others. Now, I haven't made the final decision on how the distribution is to be made. It is my intention that everybody will get an increase, but I can't guarantee that everybody will get 2 per cent."*[90]

**86.** Nododd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Ddrafft [91] ei fod yn derbyn y gyllideb chwyddiant yn unig, gan nodi:

> *"gyda'r galwadau ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn uwch nag erioed, mae'n ddealladwy mai cynnydd yn unol â chwyddiant sy'n cael ei gynnig ar gyfer cynlluniau gwariant 2026-27."*[92]

**87.** Aeth ymlaen i ddweud ei fod yn darparu "sicrwydd a chysondeb" sy'n allweddol i'r Coleg er mwyn cynllunio ei wariant. Galwodd ar Lywodraeth nesaf Cymru i flaenoriaethu cyllid ar gyfer y chwe chynnig polisi yn ei maniffesto, gan gynnwys:

- Creu Strategaeth Datblygu Gweithlu Dwyieithog a sefydlu Uned o fewn Llywodraeth Cymru i'w gweithredu;

---

[89] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 76
[90] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 76
[91] WGDB26-27 03: Coleg Cymraeg Cenedlaethol
[92] WGDB26-27 03: Coleg Cymraeg Cenedlaethol, tudalen 3

- Buddsoddi ychwanegol er mwyn cynyddu nifer y prentisiaethau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.[93]

**88.** Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet, yn ei bapur tystiolaeth, rôl a chyfrifoldebau ehangach y Coleg sy'n mynd y tu hwnt i Addysg Uwch, gan gynnwys Addysg Bellach a dysgu seiliedig ar waith. Mae hefyd wedi'i ddynodi'n gynghorydd statudol i Medr mewn perthynas â'i ddyletswyddau sy'n ymwneud â'r Gymraeg ar draws addysg drydyddol.[94]

**89.** Gallai'r penderfyniad i flaenoriaethu'r Athrofa am gyfran sylweddol o'r cyllid ychwanegol arwain at gynnydd is na chwyddiant i'r Coleg Cymraeg. Nid yw'n glir pa effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei chael ar y Coleg Cymraeg neu bartneriaid eraill yn y sector, ac a fydd y cynnydd yn ddigonol i dalu am gyflogau neu bwysau chwyddiant eraill.

**90.** Nid yw'n glir chwaith a yw'r cyllid ychwanegol i gefnogi gwaith paratoi'r Athrofa yn cynnwys cyllid i gefnogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda'i chostau chwyddiannol a'i chyfrifoldebau ychwanegol ei hun, sydd bellach yn cynnwys cefnogi ysgolion.

## Adolygu cynllun grant i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg

**91.** Wrth graffu ar gyllideb ddrafft 2023-24, dywedodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ar y pryd fod Llywodraeth Cymru'n cynnal adolygiad i ddeall "a ydy'r model sydd gennym ni, y strwythur sydd gennym ni o ariannu, yr hyn rydyn ni'n gofyn wrth ein partneriaid, yn gyson ag amcanion Cymraeg 2050."[95] Dywedodd:

> *"Dwi ddim yn rhagweld y byddwn ni'n gwneud newidiadau sylfaenol o fewn y flwyddyn ariannol hon [2023-24] yn sgil hynny, ond yn y flwyddyn ariannol nesaf, mae'n debygol y bydd newidiadau'n dod yn sgil canlyniadau'r adolygiad."*[96]

**92.** Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2023 ac roedd yn nodi'r canlynol:

> *"Amlygodd y dystiolaeth a gasglwyd drwy gyfweliadau a gweithdai theori newid bryderon ymhlith rhai derbynwyr grant y*

[93] Coleg Cymraeg Cenedlaethol Maniffesto 2026
[94] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 4
[95] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 18 Ionawr 2023, paragraff 261
[96] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 18 Ionawr 2023, paragraff 261

> *byddai model ariannu newydd yn annog cystadleuaeth yn hytrach na chydweithio rhwng mudiadau a phartneriaid, a hynny'n cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth gyfredol a threfniadau gyda phartneriaid."*[97]

**93.** Roedd yr adroddiad hefyd yn tynnu sylw at natur fregus rhai derbynwyr grant, ac y gallai peidio â sicrhau cyllid grant yn y dyfodol "beryglu eu gallu i fodoli ac/neu i gynnal y gweithgareddau y maent yn eu cynnal."[98]

**94.** Nododd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg yn ei bapur tystiolaeth i Gyllideb Ddrafft 2025-26 fod yr "ystyriaeth o ganfyddiadau ac argymhellion yr adolygiad yn parhau"[99]. Mae ei bapur i'r Gyllideb Ddrafft bresennol yn ailddatgan y safbwynt hwn, gan dynnu sylw at yr angen am "dymor cyllido hwy". Mae hefyd yn nodi bod gwaith wedi cael ei wneud yn 2025-26 i "ystyried ymestyn dyraniadau grant am hyd at dair blynedd."[100]

**95.** Wrth graffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, er bod yr adolygiad yn mynd rhagddo, fod penderfyniadau ynghylch yr adolygiad grant yn cael eu gohirio oherwydd blaenoriaethau eraill. Dywedodd:

> *"My feeling was, is that, we could afford to spend a bit less time on the review, in order to achieve the other ambitions."*[101]

**96.** Un o argymhellion yr adolygiad oedd y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu cynlluniau grant dros gyfnodau hirach, gan roi mwy o sicrwydd i'r sector. Er gwaethaf yr oedi cyn gweithredu argymhellion yr adolygiad, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi cytuno i symud i gylch cyllido tair blynedd.

### Ein barn ni

Cawsom ein synnu gan gyfaddefiad Ysgrifennydd y Cabinet, er gwaethaf y cynnydd yn BEL y Gymraeg, y bydd sefydliadau partner sy'n cael eu hariannu drwy'r grant yn debygol o gael cynnydd o lai na 2 y cant. Mae gwaith yr Athrofa yn amlwg yn bwysig. Rydym yn cytuno y dylai gweithredu'r Ddeddf fod yn

[97] Llywodraeth Cymru: cynllun grant i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg: adolygiad - 13 Gorffennaf 2023, tudalen 114
[98] Llywodraeth Cymru: cynllun grant i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg: adolygiad - 13 Gorffennaf 2023, tudalen 114
[99] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2025-26 - Rhagfyr 2024, tudalen 7
[100] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 11
[101] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 81

flaenoriaeth. Fodd bynnag, rydym yn pryderu nad yw'r penderfyniad hwn i flaenoriaethu cyllid i un elfen o'r Ddeddf yn adlewyrchu pwysigrwydd hanfodol gwaith a gweithgareddau partneriaid eraill, fel y Coleg Cymraeg, yn cefnogi amcanion y Ddeddf.

Yn ein barn ni, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r cynnydd sylfaenol o 2 y cant i sefydliadau partner, gyda gofynion cyllido i weithredu'r Ddeddf yn cael eu bodloni drwy ddulliau eraill. Mae'n siŵr bod yr holl sefydliadau partner yn gwbl gefnogol o nodau'r Ddeddf, ond yn ein barn ni, ni ddylai hyn fod ar draul eu gwaith a'u cynaliadwyedd yn y dyfodol. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd fod yn glir ynghylch a yw cyllid ar gyfer y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddatblygu gwaith yr Athrofa yn cynnwys cyllid i gefnogi'r Ganolfan Genedlaethol gyda'i chostau chwyddiannol ei hun, a'i chyfrifoldebau ychwanegol.

O ran yr adolygiad grant a'r diffyg cynnydd hyd yma, rydym yn cydnabod esboniad Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn fater o flaenoriaethu a chapasiti. Roeddem yn falch o glywed bod penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â'r posibilrwydd o roi sicrwydd i rai sefydliadau partner o gylchoedd cyllido tair blynedd. Rydym yn gwybod pa mor bwysig y gallai hyn fod i sefydliadau sy'n cynllunio gweithgareddau fisoedd neu flynyddoedd ymlaen llaw. Dylai rhoi rywfaint o sicrwydd tymor hirach mewn perthynas â'u cyllideb eu helpu i gynllunio dros y tymor canolig.

**Argymhelliad 12.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol

- darparu dadansoddiad llawn o ddosbarthiad y cyllid i sefydliadau partner o dan y ffrwd gyllido hon, gan gynnwys faint fydd yn cael ei ddyrannu i'r Athrofa;
- egluro a yw'r cyllid sy'n cael ei ddyrannu i gefnogi gwaith paratoi'r Athrofa yn cynnwys cyllid i gefnogi'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gyda'i chostau chwyddiannol a'i chyfrifoldebau ychwanegol ei hun;
- darparu manylion unrhyw drafodaethau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi'u cael gyda sefydliadau partner ynghylch effaith cynnydd is na chwyddiant ar eu gweithrediad a'u gweithgareddau.

**Argymhelliad 13.** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu'r cynnydd sylfaenol o 2 y cant i bob sefydliad partner, a rhoi adnoddau llawn i'r meysydd hynny sy'n gysylltiedig â gweithredu'r Ddeddf gyda refeniw ychwanegol.

## BEL Comisiynydd y Gymraeg

**97.** Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cael ei gefnogi gan ddwy BEL refeniw ac un BEL cyfalaf. Mae'r prif ddyraniad yn ariannu swyddfa'r Comisiynydd a'i gwaith rheoleiddio, yn ogystal â'i gwaith yn hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg.

**98.** Y dyraniad refeniw i'r Comisiynydd ar gyfer 2026-27 yw £3.48 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o £0.073 miliwn (2 y cant) ar y llinell sylfaen ddiwygiedig. Yn ôl amcangyfrif Comisiynydd y Gymraeg (y cyfeirir ato ym mhapur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet), gwnaed cais am £3.558 miliwn o gyllid refeniw, sef £83,000 ychwanegol ar ben dyraniad presennol y gyllideb ddrafft.[102]

**99.** Rhan o'r cais am gyllid ychwanegol oedd galluogi'r Comisiynydd i gynyddu ei gweithgareddau yn datblygu'r Gymraeg yn y gweithle, ac ar gyfer rhaglenni gwaith penodol eraill.

**100.** Mae argaeledd cyllid wedi bod yn her gyson i'r Comisiynydd. Ers 2016-17, mae cyllideb y Comisiynydd wedi bod yn gymharol wastad, er ei bod wedi cynyddu'n raddol dros y blynyddoedd diwethaf. Cafodd y Comisiynydd ddyraniad o £3.35 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2025-26, a chafodd £37,000 ychwanegol yn y Gyllideb Atodol 1af ym mis Mehefin 2025. Mae cyllid yn ystod y flwyddyn wedi cael ei ddarparu mewn blynyddoedd blaenorol hefyd i helpu'r Comisiynydd gyda chostau cyflogaeth annisgwyl.

**101.** Clywodd y Pwyllgor fod y Comisiynydd yn dal i deimlo effaith gostyngiad o 5 y cant yn y gyllideb yn 2024-25, ac erbyn hyn mae ganddi "chwe pherson yn llai i wneud fy ngwaith".[103] Yn ystod craffu blynyddol yn ddiweddar, dywedodd:

> *"Mae rhai o'r arbedion wedi cael eu gwneud mewn gwasanaethau cefnogi, a byddwn i'n dadlau bod hynny'n iawn i'w wneud ac yn amserol i'w wneud, ond dwi ddim eisiau gweld erydu pellach ar ein swyddogion sy'n gweithio o ddydd i ddydd gyda'r sefydliadau rydyn ni'n eu rheoleiddio."*[104]

[102] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 14
[103] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 12 Tachwedd 2025, paragraff 218
[104] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 12 Tachwedd 2025, paragraff 218

**102.** Mewn perthynas â chyllideb y Comisiynydd, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod y swyddfa wedi cael yr un cynnydd â phob Comisiynydd arall, ond bod swm o gyllid heb ei ddyrannu o hyd.[105]

**103.** Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn cytuno â sylwadau'r Comisiynydd yn ystod cyfarfod blynyddol y Pwyllgor i graffu ar ei gwaith ei bod yn rhedeg "sefydliad effeithiol" sydd "wedi ei reoli'n dda", ac wedi ceisio symud adnoddau a newid ffyrdd o weithio i ateb blaenoriaethau a heriau newydd.[106] Serch hynny, cydnabyddodd y bydd heriau i'r Comisiynydd wrth i fwy o sefydliadau ddod o dan y gyfundrefn safonau.

### Ein barn ni

Mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o effeithiau gostyngiadau termau real o un flwyddyn i'r llall yng nghyllid Comisiynydd y Gymraeg a'r cyfyngiadau y gallai hynny eu gosod ar ei swyddogaethau a'i gweithgareddau.

Er ein bod wedi cael sicrwydd bod strwythur staffio'r Comisiynydd yn ei galluogi i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol, rydym yn dal yn bryderus iawn am effaith gronnus gostyngiadau mewn termau real o un flwyddyn i'r llall yn ei chyllideb. Mae gan swyddfa'r Comisiynydd 26 y cant yn llai o staff erbyn hyn o'i gymharu â 2012, pan gafodd ei sefydlu. Ond eto mae'r cyfrifoldebau a'r galw wedi cynyddu wrth i fwy o sefydliadau gael eu cynnwys yn y gyfundrefn safonau.

Er bod y Pwyllgor, a'r Comisiynydd ei hun, yn croesawu camau i ddod â mwy o sectorau o dan gyfundrefn safonau'r Gymraeg, bydd hyn yn sicr o gynyddu llwyth gwaith swyddfa'r Comisiynydd ac effeithio ar ei chapasiti.

Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ddarparu'r £83,000 ychwanegol o refeniw y gofynnwyd amdano fel rhan o'i hamcangyfrif i'r Comisiynydd. Byddai'r cyllid hwn yn ei galluogi i ymestyn ei gwaith yn datblygu'r Gymraeg yn y gweithle. Hoffem atgoffa Ysgrifennydd y Cabinet fod Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025, yr oedd yn cydnabod ei bod yn flaenoriaeth ariannu, hefyd yn gwneud darpariaeth i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

[105] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 84
[106] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 12 Tachwedd 2025, paragraff 166

**Argymhelliad 14.** Rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cynnydd termau real mewn cyllid ynghyd â'r cynnydd sy'n gymesur â'r gweithgareddau ychwanegol y gofynnir i'r Comisiynydd eu cyflawni.

**Argymhelliad 15.** Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o unrhyw gytundeb cyllideb, geisio darparu'r £83,000 ychwanegol y gofynnwyd amdano i'r Comisiynydd fel rhan o'i hamcangyfrif i wneud gwaith yn datblygu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle.

## BEL y Gymraeg mewn Addysg

**104.** Mae BEL y Gymraeg mewn Addysg yn rhan o'r MEG Addysg, ac mae'n ariannu gweithgareddau sy'n ymwneud â chynllunio addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys cyllid ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg, yn bennaf drwy Mudiad Meithrin, y rhaglen e-sgol a chyllid ar gyfer gweithredu Cynlluniau Strategol 10 mlynedd y Gymraeg mewn Addysg. Tan yn ddiweddar, roedd y BEL hon hefyd yn ariannu Adnodd, is-gwmni newydd Llywodraeth Cymru, sy'n goruchwylio'r gwaith o ddarparu adnoddau addysgol i gefnogi'r gwaith o addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru.

**105.** Mae BEL y Gymraeg mewn Addysg wedi lleihau'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Yng Nghyllideb Derfynol 2023-24, dyrannwyd £20.77 miliwn, ond roedd trosglwyddiadau o'r BEL hon ynghyd â phwysau cyllidebol yn 2024-25 yn golygu ei fod wedi gostwng i £16.9 miliwn. Roedd ailstrwythuro'r Cabinet hanner ffordd drwy 2024 yn golygu rhagor o newidiadau i'r BEL hon, wrth i gyllideb graidd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol gael ei throsglwyddo i BEL y Gymraeg, sydd bellach yn rhan o'r MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu.

**106.** Mae gan y BEL Cymraeg mewn Addysg ddyraniad o £3.991 miliwn ar gyfer 2026-27, gostyngiad o £2.426m o'r llinell sylfaen ddiwygiedig yn dilyn "trosglwyddiad gweinyddol" yn y MEG Addysg.[107]

### Adnodd

**107.** Mae Adnodd Cyfyngedig yn gorff hyd braich Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio ac yn cydlynu'r gwaith o ddarparu adnoddau addysgol yn Gymraeg ac yn Saesneg.[108] Mae'n cefnogi'r gwaith o addysgu a dysgu'r Cwricwlwm i Gymru.

[107] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 3
[108] Adnodd Cyfyngedig | LLYW.CYMRU

**108.** Cyfanswm cyllid Adnodd ar gyfer 2025-26 oedd £4.5 miliwn. Ar hyn o bryd mae'r cyllid hwn wedi'i rannu rhwng dwy BEL ar wahân (BEL y Gymraeg mewn Addysg a'r BEL Cwricwlwm ac Asesu). Yn ôl Ysgrifennydd y Cabinet, mae £2.4m wedi'i drosglwyddo o BEL y Gymraeg mewn Addysg i "adlewyrchu'r ffaith bod yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu wedi ymgymryd â rôl rheoli partneriaeth Adnodd o 1 Ebrill 2025 ymlaen."[109]

**109.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet rai o'r rhesymau y tu ôl i'r trosglwyddiad, gan nodi:

> *"Yn y flwyddyn gyntaf, roedd y gwaith i'w wneud gyda Adnodd yn waith oedd yn y system yn barod—so legacy work, pethau oedd wedi digwydd yn barod, ac roedd swyddogion 'Cymraeg 2050' yn rhan o hynny. Nawr, mae hynny wedi mynd trwy'r system, ac mae Adnodd nawr yn canolbwyntio ar yr adnoddau newydd maen nhw wedi'u comisiynu, ac roedd e jest yn gwneud mwy o synnwyr nawr i dynnu'r arian i gyd gyda'i gilydd o dan un llinell yn y gyllideb."*[110]

**110.** Fodd bynnag, nododd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd fod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi ymrwymo i roi nodyn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i "esbonio'r pethau technegol sydd tu ôl i'r arian sydd wedi symud".[111] Addawodd rannu'r nodyn gyda'r Pwyllgor hwn.

## Mudiad Meithrin

**111.** Mae Mudiad Meithrin yn bartner craidd i Lywodraeth Cymru wrth ddatblygu darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Erbyn hyn, dyma fuddiolwr mwyaf BEL y Gymraeg mewn Addysg. Nid yw'n glir faint o'r BEL hon sydd wedi cael ei dyrannu i'r sefydliad ar gyfer 2026-27, ond cafodd Mudiad Meithrin £3.031m o'r BEL hon yn 2024-25.

**112.** Gan nad oes "cynnydd chwyddiannol" wedi'i gynnwys yn BEL y Gymraeg mewn Addysg o'i gymharu â'r llinell sylfaen ddiwygiedig, mae'n ymddangos y bydd cyllideb Mudiad Meithrin yn aros yr un fath. Mae hyn yn doriad termau real yn ei gyllideb.

---

[109] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 4
[110] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraffau 55-56
[111] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 52

**113.** Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o gyllid yn union, ac o ba BELs y bydd Mudiad Meithrin yn cael ei gyllid. Nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr "arian sy'n mynd at Mudiad Meithrin yn dod o ddau le. Mae yna gyllideb gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg"[112]. Fodd bynnag, cadarnhaodd na fydd Mudiad Meithrin yn derbyn cynnydd chwyddiannol fel rhan o'r Gyllideb hon:

> *"Fel dwi'n deall, ar hyn o bryd, dydy hi ddim yn bwriadu rhoi mwy o arian yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod i Mudiad Meithrin. Mae hi wedi gwneud penderfyniadau i ddefnyddio'r arian ychwanegol sydd gyda hi am flaenoriaethau eraill."*[113]

**114.** Aeth ymlaen i ddweud:

> *"Mae arian yn mynd at y Mudiad Meithrin o gyllid 'Cymraeg 2050'. Dwi ddim wedi gwneud y penderfyniadau eto am sut i ddefnyddio'r arian ychwanegol sydd gyda fi am y flwyddyn nesaf, ond rŷn ni'n dal i ystyried os gallwn ni roi mwy o arian i'r mudiad."*[114]

## Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol)

**115.** Mae'r BEL Cymraeg 2050 (Grant Addysg Awdurdodau Lleol) yn cynyddu £0.7 miliwn ar gyfer 2026-27, ac mae bellach yn £9.47 miliwn. Mae hyn yn gynnydd o 8 y cant ar y dyraniad llinell sylfaen ddiwygiedig.

**116.** Yn ôl papur tystiolaeth Ysgrifennydd y Cabinet, dyrennir tua dwy ran o dair (£5.9m) i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith o gyflawni Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol ac uchelgeisiau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru).

**117.** Mae'r cynnydd sylweddol yn y dyraniad yn y BEL hon yn ymwneud â chyllid ar gyfer canolfannau trochi hwyr y Gymraeg. Mae'r canolfannau hyn yn cynnig rhaglen dysgu a chaffael iaith ddwys i ddysgwyr ifanc a gollodd gyfleoedd trochi cynnar yn y Gymraeg.

[112] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 39
[113] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 39
[114] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 39

**118.** Nid yw'n glir faint o'r cyllid yn y BEL hon sy'n cael ei ddyrannu i ganolfannau trochi yng Nghymru, ond yn flaenorol mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo cyllid o £2.2 miliwn y flwyddyn hyd at 2025.

**119.** Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet hefyd ei fod yn parhau i chwilio am adnoddau o gyllidebau eraill i gefnogi nodau Deddf 2025 yn ehangach, fel cyllid i gefnogi'r Urdd. Wrth drafod prosiect penodol yr Urdd i alluogi mynediad gydol y flwyddyn i Glan-llyn, nododd:

> *"Dwi'n siarad ar hyn o bryd â'r Gweinidogion eraill i weld os ŷn ni'n gallu ffeindio ffordd i helpu'r Urdd gyda'r cynllun yna. So, os gallwn ni eu helpu nhw i wneud mwy, ac yn enwedig i dynnu mwy o'r ysgolion sy'n rhedeg trwy'r Saesneg i mewn i'r canolfannau, mae hwn yn mynd i wneud cyfraniad mawr at y Ddeddf hefyd".*[115]

## ARFOR

**120.** Roedd ARFOR 2, a oedd yn adeiladu ar beilot ARFOR, yn gynllun i helpu cymunedau Cymraeg yng Ngwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin i ddatblygu ymyriadau economaidd i alluogi'r Gymraeg i ffynnu.

**121.** Dyrannwyd cyfanswm o £11 miliwn o gyllid i ARFOR 2 hyd at fis Mawrth 2025, ond mae ei ddyfodol yn dal yn ansicr gan fod y rhan fwyaf o'r cyllid wedi dod i ben o'r dyddiad hwnnw ymlaen. Yn ystod sesiwn craffu Ysgrifennydd y Cabinet ar Gyllideb Ddrafft 2025-26, dywedodd wrth y Pwyllgor:

> *"Dywedodd Rebecca [Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio] wrthyf i ei bod hi'n awyddus i mainstream—prif ffrydio—nifer o bethau mae Arfor wedi'u gwneud yn y gyllideb gyffredinol sydd gyda hi."*[116]

**122.** Yn sesiwn dystiolaeth eleni, eglurodd Ysgrifennydd y Cabinet unwaith eto fod hwn yn faes y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio yn gyfrifol amdano. Fodd bynnag, dywedodd:

> *"while Arfor is in a pause and reflect phase—and those are not decisions that I make—I'm aware of the fact that some of the*

[115] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 94
[116] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 16 Ionawr 2025, paragraff 112

*strands in it continue because they've demonstrated their worth."*[117]

**123.** Un o'r meysydd hynny sy'n parhau i gael rhywfaint o gyllid yw'r 'prosiect Profi', sydd yn ôl yr Ysgrifennydd yn ceisio perswadio pobl ifanc bod eu gallu i siarad Cymraeg yn fantais economaidd iddynt. Nododd y gall y sgiliau hynny helpu i greu cyfleoedd economaidd a allai fod wedi llithro heibio nhw fel arall.[118]

**124.** Yn yr un modd, mae'r prosiect Perthyn wedi parhau hefyd, er gwaethaf y ffaith bod cyllid ARFOR wedi dod i ben. Cynllun grant yw Perthyn sy'n darparu cymorth a chyngor ariannol i gymunedau Cymraeg eu hiaith yn y Gogledd a'r Gorllewin sydd â lefelau uchel o berchnogaeth ail gartrefi. Mae'r cynllun yn helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol a phrosiectau tai dan arweiniad y gymuned.

**125.** Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £560,000 ar gyfer 2026-27 i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun. O'r dyraniad hwn, mae £157,000 yn mynd i Cwmpas i ddarparu gwasanaeth cyngor a chymorth pwrpasol, ac mae £400,000 yn gymorth ariannol i gymunedau eu hunain i ddatblygu mentrau cymdeithasol newydd a thai a arweinir gan y gymuned, gan helpu i " droi syniadau'n brosiectau hyfyw."[119]

**126.** Mae'r cynllun wedi cael ei ymestyn i alluogi cymunedau ledled Cymru i gael gafael ar gyllid lle mae'r Gymraeg yn ganolog i'w nodau. Serch hynny, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod y sesiwn craffu fod mwy o bwysoliad yn cael ei roi i brosiectau yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Yn ei bapur tystiolaeth, nododd Ysgrifennydd y Cabinet fod yr iaith yn parhau i fod yn "ganolog i'w nodau a'u hamcanion" ac y bydd yn parhau i "flaenoriaethu cymorth i brosiectau mewn cymunedau Cymraeg sydd â nifer uchel o ail gartrefi".[120]

### Ein barn ni

Mae gwaith Mudiad Meithrin yn allweddol ar gyfer darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg a datblygu capasiti a chyfleoedd pellach i blant ifanc (a'u rhieni) ymwneud â'r iaith. Nodwn hefyd fod rôl Mudiad Meithrin yn glir o ran

---

[117] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 113
[118] Cofnod y Trafodion: Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol – 27 Tachwedd 2025, paragraff 112
[119] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 13
[120] Llywodraeth Cymru: Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 – 4 Tachwedd 2025, tudalen 13

cefnogi llwybr dysgu Cymraeg dysgwyr, ac yn rhan annatod o lwyddiant Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025.

Felly, er gwaethaf cynnydd chwyddiannol cyffredinol o 2.2 y cant ar draws Cyllideb Ddrafft gyfan 2026-27, mae'n destun pryder i ni nad yw BEL y Gymraeg mewn Addysg yn cynyddu o gwbl. Bydd chwyddiant a chostau pwysau yn effeithio ar Mudiad Meithrin yn yr un modd â chyrff eraill sy'n cefnogi'r Gymraeg. Nid yw'n glir o hyd i ni pam mae Mudiad Meithrin wedi cael ei eithrio rhag elwa ar gynnydd yn ei gyllideb, a sut mae'r penderfyniad hwn yn cyd-fynd â gweithredu Deddf 2025 yn llwyddiannus.

O ran ARFOR, mae'n siomedig bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â pharhau i ariannu'r cynllun yn ei gyfanrwydd wrth gynnal gwerthusiad. Megis dechrau y mae'r cynllun o hyd, ac mae'r posibilrwydd o golli momentwm yn bryder. Er ein bod yn croesawu parhad cynlluniau penodol, gan gynnwys ymestyn a chynyddu cyllid Perthyn, nid ydym wedi cael sicrwydd y bydd ARFOR yn cael ei brif ffrydio'n ehangach i'r cyllid cyffredinol fel yr awgrymwyd yn flaenorol.

Pe bai'r cynllun wedi'i brif ffrydio'n wirioneddol, byddem yn gobeithio ac yn disgwyl i Lywodraeth Cymru nodi sut mae'n cael ei ariannu drwy'r gyllideb ddrafft hon. Er mai Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi sy'n bennaf gyfrifol am ARFOR a'i gyllid, byddem yn disgwyl i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg chwarae rhan bwysig mewn trafodaethau ynghylch ei ddyfodol.

**Argymhelliad 16.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- darparu cynnydd chwyddiannol i Mudiad Meithrin ar yr un lefel â phartneriaid eraill sy'n gweithio i gefnogi a hyrwyddo'r iaith;
- nodi faint o gyllid y bydd Mudiad Meithrin yn ei gael fel rhan o'r Gyllideb Ddrafft hon, a ble mae'r cyllid hwnnw'n cael ei ddyrannu.

**Argymhelliad 17.** Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl sut mae ARFOR wedi cael ei brif ffrydio i'r gyllideb gyffredinol.

# 4. Cysylltiadau Rhyngwladol

## Casglu tystiolaeth

**127.** Cawsom dystiolaeth ysgrifenedig gan y Prif Weinidog ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, gwahoddwyd y Prif Weinidog i roi tystiolaeth ar lafar ond gwrthododd. Roedd hyn yn parhau â'r agwedd sydd wedi'i mabwysiadu gan Brif Weinidogion at y gwaith o graffu ar y gyllideb cysylltiadau rhyngwladol yn y Chweched Senedd.

**128.** Roedd y Pwyllgor wedi'i galonogi gan lythyr gan y Prif Weinidog ym mis Mehefin eleni, lle esboniodd ei bod wedi rhoi ystyriaeth bellach i'n hargymhellion ar wella tryloywder a gwybodaeth am weithgarwch rhyngwladol Llywodraeth Cymru.[121]

**129.** Roeddem wedi ein calonogi ymhellach fod swyddogion wedi nodi bod ymdrechion yn cael eu gwneud i ddod o hyd i amser mewn un o dri chyfarfod posibl i ganiatáu presenoldeb yn y Pwyllgor ym mis Tachwedd eleni. Felly, mae'n fwy siomedig byth bod y Prif Weinidog, mewn llythyr dyddiedig 31 Hydref 2025, wedi rhoi gwybod i'r Pwyllgor na fyddai'n bresennol ac wedi dweud:

> *"Yn dilyn y sesiynau tystiolaeth lafar, byddaf yn sicrhau bod unrhyw geisiadau ychwanegol am wybodaeth neu eglurhad yn cael sylw'n brydlon."*[122]

**130.** Mae'n rhaid i bwyllgorau'r Senedd adrodd ar eu gwaith o graffu ar Gyllideb Ddrafft 2026-27 erbyn 15 Rhagfyr 2025. Nid yw hyn yn gadael digon o amser i gyfnewid gohebiaeth. Felly, mae ein gwaith craffu wedi'i lywio gan lythyr y Prif Weinidog.

### Ein barn ni

Rydym wedi ein siomi bod y Prif Weinidog, unwaith eto, wedi gwrthod ein gwahoddiad i roi tystiolaeth ar lafar. Mae'r Prif Weinidog wedi dilyn dull ei rhagflaenwyr i beidio ag ymddangos yn bersonol er inni nodi fwy nag unwaith

[121] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 9 Mehefin 2025
[122] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan y Prif Weinidog a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 1

yn ein hadroddiadau blaenorol ar y Gyllideb Ddrafft fod gennym bryderon difrifol ynglŷn â hynny.

Mae'r Prif Weinidog yn atebol i'r Senedd am gysylltiadau rhyngwladol Cymru. Ein safbwynt o hyd yw mai mater i'r Senedd, nid Llywodraeth Cymru, yw penderfynu sut y dylid gwneud gwaith craffu o'r fath.

Er y gellir mynd i'r afael â rhai materion drwy dystiolaeth ysgrifenedig neu ohebiaeth, mae'n fwy effeithlon ac effeithiol ystyried materion eraill drwy drafod yn y confensiwn sefydledig o sesiwn tystiolaeth ar lafar.

Ar ben hynny, bu oedi sylweddol o ran cael gwybodaeth ysgrifenedig am y gyllideb gan y Prif Weinidog. Er enghraifft, cafodd yr wybodaeth y gwnaethom ofyn amdani wrth graffu ar y Gyllideb Ddrafft ym mis Rhagfyr 2024 ei darparu ym mis Mehefin 2025 mewn perthynas â chylch cyllideb 2025-26.

Fel mater o egwyddor, os bydd Prif Weinidog yn mabwysiadu cyfrifoldebau polisi penodol, dylai sicrhau ei fod ar gael i gael ei ddal i gyfrif am y cyfrifoldebau hynny. Os na all Prif Weinidog wneud hynny, dylai ystyried dirprwyo'r cyfrifoldebau hynny i Weinidog arall.

Bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y materion hyn yn ei adroddiad Strategaeth Ryngwladol ac yn ein Chweched adroddiad etifeddiaeth ar gyfer y Senedd.

**Argymhelliad 18.** Yn unol â'n hargymhellion blaenorol a'r egwyddor o atebolrwydd Llywodraeth Cymru i'r Senedd, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, lle bo'r pwyllgor perthnasol yn gofyn, bod y Gweinidog sy'n gyfrifol am Gysylltiadau Rhyngwladol yn ymddangos yn bersonol ar gyfer sesiynau tystiolaeth lafar ar Gyllidebau Drafft yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am wariant yn 2024-25 a 2025-26

**131.** Mae'r Prif Weinidog wedi darparu gwybodaeth rannol am yr alldro terfynol a'r rhagolygon alldro ar gyfer cylchoedd cyllideb 2024-25 a 2025-26, yn y drefn honno.

**132.** Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, nid yw tystiolaeth y Prif Weinidog ar y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yn rhoi llawer o fanylion o ran dadansoddiadau neu ddyraniadau terfynol, nac o ran canlyniadau, effaith a gwerth am arian mewn cysylltiad â gwariant yn y blynyddoedd presennol a'r blynyddoedd blaenorol.

**133.** Nid yw’r alldro terfynol a’r rhagolygon alldro ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol wedi’u darparu, ond mae’r wybodaeth hon wedi cael ei darparu'n flaenorol.

**Ein barn ni**

Rydym yn bryderus nad yw gwybodaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn rhoi cyfrif am wariant terfynol a’r rhagolygon gwariant yng nghylchoedd presennol a blaenorol y gyllideb.

Cyfyngedig yw’r wybodaeth am ymrwymiadau rhyngwladol presennol hefyd. Mae gwybodaeth allweddol, fel gwybodaeth am ddatblygu rhyngwladol, ar goll a lle mae gwybodaeth wedi’i darparu, nid yw'n glir sut mae'n cyfrannu at nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru.

Nid oes esboniad digonol chwaith o'r cysylltiad rhwng yr wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd, y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol, a'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl ei gyflawni dros weddill y Chweched Senedd.

Mae'r wybodaeth ysgrifenedig hefyd yn cynnwys cyhoeddiad pwysig a allai arwain at ganlyniadau pellgyrhaeddol i gysylltiadau rhyngwladol Cymru – Adolygiad arfaethedig o'r Rhwydwaith Tramor cyn diwedd y Senedd hon. Nid yw'r rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad hwn, y broses adolygu, ei hyd a’i led, ei amseriad na'i adnoddau wedi'u nodi. Mae hyn yn gyfle arall wedi’i golli i Lywodraeth Cymru ddarparu esboniadau clir i'r Pwyllgor a'r Senedd ehangach o benderfyniadau strategol, sylweddol yn y maes pwysig hwn.

**Argymhelliad 19.** Mewn ymateb i’r adroddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Darparu gwybodaeth am ganlyniadau ac elfennau i’w cyflawni sy'n ymwneud â Chysylltiadau Rhyngwladol ar gyfer 2024-25 a 2025-26.
- Darparu gwybodaeth am alldro, canlyniadau ac elfennau i'w cyflawni sy'n ymwneud â Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol ar gyfer 2024-25 a 2025-26.
- Esbonio sut mae dyraniad y gyllideb ar gyfer 2025-26 wedi cael ei ddefnyddio i gyflawni'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol hyd yma yng nghylch presennol y gyllideb, a beth sydd ar ôl i'w gyflawni yn ystod y Chweched Senedd.

- Darparu rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad arfaethedig o'r Rhwydwaith Tramor, gan gynnwys y rhesymeg y tu ôl i'r penderfyniad, y broses adolygu, ei hyd a'i led, ei amseriad a'i adnoddau.

## Toriadau termau real i gyllidebau Cysylltiadau Rhyngwladol a Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol ar gyfer 2026-27

**134.** Mae Cyllideb Ddrafft 2026-27 Llywodraeth Cymru yn dyrannu £9.232 miliwn ar gyfer gweithgarwch rhyngwladol ar draws dwy brif BEL:

- **BEL Cysylltiadau Rhyngwladol:** Mae hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Strategaeth Ryngwladol 2020 a thri o'i phum cynllun gweithredu, Cynllun Cyflawni Rhyngwladol 2025, swyddfeydd tramor, a chyflawni dau ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Y rhain oedd cadw swyddfa ym Mrwsel a sefydlu Academi Heddwch. Mae hefyd yn cefnogi perthnasoedd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru, partneriaethau strategol a blynyddoedd hyrwyddo "Cymru a".

- **BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol** (y BEL Datblygu Rhyngwladol gynt). Ar gyfer 2026-27, mae'n ymddangos ei bod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica a datblygiadau rhyngwladol eraill, fel rhoddion cymorth dyngarol.

**135.** Dyraniad Cyllideb Ddrafft 2026-27 ar gyfer y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yw £8.182m yn dilyn trosglwyddiad o £3,000 o gronfeydd wrth gefn.

**136.** Nid yw'r dyraniad ar gyfer y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol wedi newid ers y blynyddoedd blaenorol, sef £1.050 miliwn.

**137.** Mae cyllid refeniw ar gyfer y BELs rhyngwladol yn cynyddu 0.04 y cant ar gyfer BEL Cysylltiadau Rhyngwladol a 0 y cant ar gyfer y BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol, o'i gymharu â'r Llinell Sylfaen Ddiwygiedig ar gyfer 2025-26. Mae'r ddau yn is na'r cynnydd yn nyraniadau refeniw cyffredinol Llywodraeth Cymru, sy'n cynyddu 2.2 y cant.

### BEL Cysylltiadau Rhyngwladol

**138.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn defnyddio dyraniad Llinell Sylfaen Ddiwygiedig Cyllideb Ddrafft 2025-26 (£8.179m) yn hytrach na chyfanswm y ffigur yn nhablau'r BEL (£8.182m).

**139.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn darparu dadansoddiadau lefel uchel o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol yn erbyn yr £8.179m. Nid yw'n cyfeirio at y trosglwyddiad o £3,000 o gronfeydd wrth gefn ac nid yw hynny wedi'i ystyried.

**140.** Mae'r tabl isod yn dangos dadansoddiad lefel uchel o'r BEL Cysylltiadau Rhyngwladol a ddarparwyd i'r Pwyllgor adeg craffu ar y Gyllideb Ddrafft dros y blynyddoedd diwethaf.[123]

| BEL Cysylltiadau Rhyngwladol | Cyllideb Ddrafft 2024-25 (Rhagfyr 2023) | Cyllideb Ddrafft 2025-26 (Rhagfyr 2024) | Cyllideb Ddrafft 2026-27 (Hydref 2025) |
|---|---|---|---|
| **Ymgysylltu Rhyngwladol** | £2,658,600 | £2,708,600 | **£2,708,600** |
| **Swyddfeydd tramor: costau rhedeg** | £4,684,400 | £4,684,400 | **£4,720,400** |
| **Swyddfeydd tramor: cyllideb gweithgarwch cyfunol** | £750,000 | £750,000 | **£750,000** |
| **Cyfanswm** | £8,093,000 | £8,143,000 | £8,179,000 |

*Nid yw'r tabl hwn yn dangos unrhyw newidiadau i ddyraniadau a wnaed yng nghyllidebau dilynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a 2025-26

**141.** Mae'r Prif Weinidog yn egluro:

> *"Mae'r flwyddyn ariannol nesaf yn adlewyrchu cyfnod pontio gan y bydd y Strategaeth Ryngwladol a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn dod i ben ym mis Mawrth 2026 a bydd tymor newydd y llywodraeth yn dechrau ym mis Mai 2026."*[124]

**142.** Felly:

[123] *Nid yw'r tabl hwn yn dangos unrhyw newidiadau i ddyraniadau a wnaed yng nghyllidebau dilynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a 2025-26.

[124] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 3

> *"Ar ôl cytuno ar flaenoriaethau rhyngwladol newydd fel rhan o dymor nesaf y llywodraeth, gellir darparu dadansoddiad llawn o'r gwariant arfaethedig."*[125]

**143.** Mae'r Prif Weinidog yn egluro nad yw cyllid yn cael ei ddyrannu yn erbyn y tri chynllun gweithredu a'r CDU ar gyfer cylch Cyllideb Ddrafft 2026-27 oherwydd na fyddant yn fyw mwyach. Mae'n egluro bod tri nod y strategaeth yn cael eu defnyddio fel sail ar gyfer cynllunio a gwariant 2026-27. Sef codi proffil Cymru, tyfu'r economi a sefydlu Cymru fel cenedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.[126]

**144.** Fodd bynnag, mae'r Prif Weinidog hefyd yn nodi yn ei thystiolaeth bod gwariant arfaethedig ar gyfer nifer o gamau gweithredu yn golygu bod "dros hanner" y BEL "eisoes wedi'i broffilio" ar gyfer 2026-27.[127] Nid yw'n glir pam nad yw'r dyraniadau hyn wedi cael eu rhannu â'r Pwyllgor.

**145.** Cawsom ar ddeall hefyd y byddai'r Strategaeth Ryngwladol a'i chynlluniau gweithredu yn dod i ben yn 2025 ac y byddai'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn pontio'r bwlch rhwng hynny ac etholiad nesaf y Senedd. Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn nodi y bydd y naill a'r llall yn dod i ben ym mis Mawrth 2026. Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor glywed y bwriad hwn. Bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y materion hyn yn ein hadroddiad Strategaeth Ryngwladol ac yn ein Chweched adroddiad etifeddiaeth ar gyfer y Senedd.

**146.** Nodwn y dull a fabwysiadwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio wrth gomisiynu gwerthusiad allanol annibynnol o'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio i asesu gwerth am arian yn erbyn ei ddyraniad cyllideb. Mae'r gwerthusiad yn rhoi dadansoddiad manwl o lwyddiant rhaglenni allforio Llywodraeth Cymru ac yn nodi meysydd llwyddiant a meysydd i'w gwella.[128]

---

[125] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 3
[126] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 3
[127] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 3
[128] Rhaglenni cymorth allforio Llywodraeth Cymru: gwerthusiad o'r effaith, 24 Hydref 2025

## BEL Datblygu Cynaliadwy Rhyngwladol

### Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica

**147.** Mae'r Prif Weinidog yn rhoi dadansoddiadau manwl o'r dyraniadau i gyflawni Cynllun Gweithredu Cymru ac Affrica. Mae'r rhain yn rhoi manylion ymrwymiadau Llywodraeth Cymru y tu hwnt i gylch Cyllideb Ddrafft 2026-27, hyd at fis Mawrth 2028 i nifer o sefydliadau sy'n cyflawni'r Cynllun gan gynnwys Maint Cymru, Hub Cymru Affrica, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) a'r Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC).[129]

### Gwrthdaro byd-eang ac apeliadau argyfyngau rhyngwladol

**148.** Nid yw dogfennau Cyllideb Ddrafft 2026-27 yn cyfeirio at apeliadau argyfyngau rhyngwladol. Mae tystiolaeth y Prif Weinidog yn esbonio:

> *"Nid oes cyllideb wedi'i neilltuo i ymateb i apeliadau brys. Gwneir rhoddion i apeliadau dyngarol brys ar sail ad hoc."*[130]

**149.** Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi rhoddion ariannol ac anariannol i apeliadau brys a lansiwyd mewn ymateb i ddatblygiadau rhyngwladol, fel trychinebau naturiol a gwrthdaro. Er enghraifft, rhoddodd £450,000 i Apêl y Dwyrain Canol y Pwyllgor Argyfyngau Brys[131] yng nghyswllt gwrthdaro Israel-Gaza ers 2024 ac mae wedi rhoi £100,000 i Apêl Daeargryn Myanmar y Pwyllgor Argyfyngau Brys.[132]

## Ymadael â'r UE

**150.** Yn ogystal â Chysylltiadau Rhyngwladol, rhestrir Cymru ac Ewrop fel cyfrifoldeb penodol ym mhortffolio'r Prif Weinidog.[133] Gofynnodd y Pwyllgor am sylwadau ar ddyraniadau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau'r Prif Weinidog dros Gymru ac Ewrop a goblygiadau ariannol ymadael â'r UE i Gymru, a sut mae ymadael â'r UE wedi siapio Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru.

**151.** Mewn ymateb, dywed y Prif Weinidog:

---

[129] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 6
[130] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan y Prif Weinidog a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 9
[131] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Cefnogi Gaza - 15 Hydref 2025
[132] Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig: Y Ddaeargryn yn Myanmar - 3 Ebrill 2025
[133] Llywodraeth Cymru: Cyfrifoldebau Prif Weinidog Cymru

> *"Mae perthynas Cymru â'r UE yn dal yn bwysig iawn ar ôl ymadael â'r UE Mae cadw swyddfa Brwsel yn flaenoriaeth yn y Rhaglen Lywodraethu, a ategir gan benodiad Derek Vaughan yn Gynrychiolydd Ewropeaidd Llywodraeth Cymru i ailadeiladu a chryfhau cysylltiadau sefydliadol."*[134]

**152.** Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod ysgwyddo rôl arweiniol mewn rhwydweithiau Ewropeaidd wedi:

> *"ein galluogi i gyfrannu at agenda strategol y rhwydweithiau hyn a dangos ymrwymiad Cymru i weithredu rhyngwladol i hyrwyddo buddiannau mewn polisi a rennir. Mae ein gwaith ymgysylltu rhagweithiol wedi sicrhau canlyniadau pendant, fel cynnwys Cymru mewn prosiect a ariennir gan Senedd Ewrop ar gydweithredu rhyngranbarthol, gyda phartneriaid rhanbarthol o Sbaen, Ffrainc, Portiwgal a Québec."*[135]

## Taith

**153.** Dyraniad Taith ar gyfer 2026-27 yw £6.662m. Mae hyn yn gynnydd o 2.5 y cant, sy'n fwy na chynnydd cyffredinol y Gyllideb Ddrafft o 2.2 y cant.

**154.** Mae Taith yn y BEL Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol (Prif Grŵp Gwariant Addysg). Cyhoeddwyd estyniad i Taith ym mis Mehefin 2025, gan ymestyn ymrwymiad ariannol Llywodraeth Cymru i 2027-28.

**155.** Rydym yn croesawu'r cynnydd arfaethedig yn y gyllideb ar gyfer Taith a'r estyniad y tu hwnt i'w dyddiad gorffen gwreiddiol.

### Ein barn ni

Gan nad oes tystiolaeth lafar, mae hi'n hanfodol bod y dystiolaeth ysgrifenedig yn glir, yn fanwl ac o ansawdd uchel. Rhaid iddi roi digon o wybodaeth am y deilliannau, y canlyniadau, yr effaith a'r gwerth am arian a geisir.

Yn anffodus ac unwaith eto, nid yw'r wybodaeth sydd yn nhystiolaeth y Prif Weinidog yn cyrraedd y safon a ddisgwyliwn, a'r safon rydym wedi gofyn amdani mewn adroddiadau blaenorol. Mae hyn ynghyd â'r diffyg cyfle i drafod materion

[134] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 8
[135] Llywodraeth Cymru: Llythyr gan Brif Weinidog Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig - 31 Hydref 2025, tudalen 8

drwy dystiolaeth lafar, yn golygu, unwaith eto, nad ydym mewn sefyllfa i graffu ar y gwariant a gynlluniwyd ar weithgareddau rhyngwladol.

Yn benodol, ni cheir digon o dystiolaeth am y gwariant a gynlluniwyd o dan ei chyfrifoldeb dros Gymru ac Ewrop; goblygiadau ariannol ymadael â'r UE i Gymru; a sut mae ymadael â'r UE wedi siapio cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru.

Mae'r dull a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru yn golygu nad ydym mewn sefyllfa i wybod a yw Llywodraeth Cymru yn cyflawni yn unol â'r targedau, a yw'r gwariant arfaethedig yn werth am arian, ac a yw'r gwariant arfaethedig yn cyfateb yn ddigonol i'r ymrwymiadau presennol i ddarparu sefydlogrwydd yn ystod y cyfnod pontio.

O'r herwydd, ni allwn ddweud a oes cyfeiriad strategol nac adnoddau angenrheidiol ar gyfer yr ymrwymiadau presennol ai peidio.

Mae hyn yn dra gwahanol i feysydd eraill o weithgareddau rhyngwladol, er enghraifft, y dystiolaeth ysgrifenedig a roddwyd ar fasnach a ffiniau gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio, a'r Dirprwy Brif Weinidog, a'u presenoldeb wyneb yn wyneb ar gyfer craffu.

**Casgliad 1.** Collwyd cyfle olaf y Chweched Senedd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n effeithiol â'n gwaith craffu ar gynigion y Gyllideb Ddrafft ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol. Nid ydym yn meddwl bod modd i'r sefyllfa hon barhau yn y Seithfed Senedd a bydd y Pwyllgor yn ailedrych ar y materion hyn yn ei adroddiad Strategaeth Ryngwladol ac yn ein hadroddiad etifeddiaeth ar y Chweched Senedd.

**Argymhelliad 20.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Esbonio'r rhesymeg am y toriadau termau real yn y BEL rhyngwladol gan ystyried y cynnydd cyffredinol o 2.2 y cant mewn refeniw.
- Rhoi manylion pa drafodaethau a gynhaliwyd rhwng Gweinidogion/Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol a arweiniodd at doriadau termau real yn y BEL.
- Rhoi dyraniadau ar gyfer y gwariant arfaethedig wedi'i broffilio ar gyfer y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol ac egluro pam na chafodd y rhain eu rhannu â'r Pwyllgor yng ngwybodaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog.

- Egluro pam fod Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo £3,000 o gronfeydd, a pham nad oedd sôn am hyn yng ngwybodaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog.
- Rhoi gwybod lle bydd y £3,000 a drosglwyddwyd o gronfeydd yn cael ei ddyrannu yn nhri maes y BEL Cysylltiadau Rhyngwladol (Ymgysylltu Rhyngwladol, Swyddfa Dramor: costau rhedeg, Swyddfeydd Tramor: gweithgarwch cyfunol).
- Sicrhau bod y Strategaeth Ryngwladol, y pedwar cynllun gweithredu a'r Cynllun Cyflawni Rhyngwladol yn destun proses werthuso allanol (yn yr un modd â'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Allforio).

## Effaith ar bartneriaid strategol

**156.** Mae tystiolaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn cadarnhau nad yw'r dyraniadau wedi cael eu hegluro eto ar gyfer partneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru, sydd wedi cael eu gwahodd i ymgeisio am gyllid.

**157.** Ers 2023, mae'r Pwyllgor wedi codi pryderon penodol yr ymgynghorir â phartneriaid yn hwyr ac y gallai hyn roi cyflawni amcanion rhyngwladol Llywodraeth Cymru yn y fantol. Roedd hyn yn cynnwys gofyn i bartneriaid cyflawni gyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni yn ystod chwarter cyntaf bob blwyddyn, ar ôl cyhoeddi'r gyllideb ddrafft a gwaith craffu'r Senedd. Nodwn gyda phryder mai dyma'r sefyllfa gyda Chyllideb Ddrafft 2026-27.

### Ein barn ni

Mae gwybodaeth ysgrifenedig y Prif Weinidog yn dangos bod trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid cyflawni. Nid yw hyn yn rhoi hyder i ni fod ein pryderon hirsefydlog wedi cael eu datrys. Nid yw'n cadarnhau'r partneriaid cyflawni ar gyfer 2026-27, nac a ydynt wedi newid i adlewyrchu'r meysydd ffocws newydd, fel y Cynllun Cyflawni Rhyngwladol.

Rydym yn dal yn bryderus bod trafodaethau â phartneriaid cyflawni strategol yn dal i ddigwydd yn hwyr yng nghylch cynllunio'r gyllideb, gyda'r ansicrwydd a'r pwysau sy'n deillio o hynny.

**Argymhelliad 21.** Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:

- Rhoi gwybod pwy fydd partneriaid cyflawni Llywodraeth Cymru ar gyfer 2026-27.

- Rhoi gwybod pryd bydd cyllid yn cael ei gadarnhau i bob partneriaid cyflawni, a faint sydd wedi cyflwyno cynlluniau ymgysylltu a chyflawni.
- Egluro pa gamau a gymerwyd i gael gwybodaeth ariannol allweddol gan bartneriaid wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft.
- Egluro cynllun wrth gefn Llywodraeth Cymru os bydd partneriaid strategol yn rhoi gwybod bod y toriadau termau real a ddisgrifir uchod yn annigonol i gyflawni eu cyfrifoldebau.

# Atodiad 1: Rhestr o sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar wefan y Pwyllgor.

| Dyddiad | Enw a Sefydliad |
|---|---|
| 19 Tachwedd 2025 | **Jack Sargeant AS, Y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol,** Llywodraeth Cymru<br>**Jason Thomas, Cyfarwyddwr Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a Greadigol,** Llywodraeth Cymru<br>**Elin Burns, Cyfarwyddwr Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg,** Llywodraeth Cymru<br>**Paul Kindred, Dirprwy Gyfarwyddwr Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg,** Llywodraeth Cymru |
| 27 Tachwedd 2025 | **Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg,** Llywodraeth Cymru<br>**Jeremy Evas, Pennaeth Prosiect 2050,** Llywodraeth Cymru<br>**Elin Burns, Cyfarwyddwr Diwylliant, Treftadaeth, Chwaraeon a'r Gymraeg,** Llywodraeth Cymru |

# Atodiad 2: Rhestr o dystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Mae'r holl wybodaeth ysgrifenedig ychwanegol, ar gael ar wefan y Pwyllgor.

| Teitl | Dyddiad |
| --- | --- |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru – Cyllidebau Cysylltiadau Rhyngwladol | 31 Hydref 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru – Cyllidebau Diwylliant, Cyfathrebu a Chwaraeon | 3 Tachwedd 2025 |
| Tystiolaeth ysgrifenedig: Llywodraeth Cymru – Cyllidebau'r Gymraeg | 4 Tachwedd 2025 |